Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 2 Mawrth 2018

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Members to declare any personal or prejudicial interests in any business identified to be considered at this meeting.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017 (copi'n amgaeedig).

**5 CYFLWYNO RHESTR O GERBYDAU HYGYRCH I GADEIRIAU OLWYN DYNODEDIG** (Tudalennau 19 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) ynglŷn â newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno a chynnal rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

**6 DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I FANYLION CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT PRESENNOL** (Tudalennau 37 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn manylu newidiadau arfaethedig i fanylebau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat presennol.

**7 DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION** (Tudalennau 41 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) sy’n cyflwyno drafft terfynol Datganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Gamblo 2005 i’w mabwysiadu a’i gweithredu o 1 Ebrill 2018.

**8 DIWEDDARIAD AR BOLISI EUOGFARN AC AMODAU GYRWYR A GWEITHREDWYR CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT** (Tudalennau 85 - 86)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn rhoi diweddariad i’r aelodau ar gynnydd adolygu polisïau sy’n gysylltiedig â Pholisi Euogfarn Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a Gweithredwyr Hurio Preifat.

**9 ADOLYGU’R POLISI MASNACHU AR Y STRYD** (Tudalennau 87 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn hysbysu aelodau o'r cynnydd mewn perthynas ag adolygiad o bolisi presennol masnachu ar y stryd yn Sir Ddinbych.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2018** (Tudalennau 89 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i’r dyfodol y pwyllgor i’w gymeradwyo.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Dim Eitemau.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)

Alan James (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Brian Jones
Barry Mellor
Melvyn Mile
Arwel Roberts

Peter Scott
Rhys Thomas
Tony Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i, (enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o (*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant: *(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Barry Mellor, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Tony Thomas a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddogion Gorfodaeth (HB a TB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Peter Scott a Rhys Thomas

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Hugh Irving – Cysylltiad Personol sy’n Rhagfarnu – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Barry Mellor – Cysylltiad Personol sy’n Rhagfarnu – Eitem rhif 6 ar y Rhaglen

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017 a’r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 18 Medi 2017.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017 ac 18 Hydref 2017 fel cofnod cywir**.***

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 5 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 523920

[Datganodd y Cynghorydd Hugh Irving (Cadeirydd) gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd, a gadawodd y cyfarfod tra bo'r eitem yn cael ei thrafod. Cymerodd y Cynghorydd Alan James (Is-Gadeirydd) y Gadair ar gyfer yr eitem hon.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

(i) chais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 523920 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i roi'r cais adnewyddu yn dilyn croniad o 9 pwynt cosb ar Drwydded Gyrru DVLA yr Ymgeisydd ar gyfer troseddau goryrru rhwng y cyfnod Tachwedd 2015 i Tachwedd 2016, a oedd wedi'u cadarnhau yn dilyn gwiriad fel mater o drefn, fel rhan o'r cais adnewyddu;

(iii) Roedd yr Ymgeisydd wedi cyflwyno mesurau lliniaru yn ystod cyfweliad ynghylch y troseddau traffig ynghyd â sicrwydd ynghylch ei ymddygiad wrth yrru;

(iv) polisi y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a'r

(v) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd, yng nghwmni ei gyflogwr, ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth (TB) yr adroddiad gan fanylu ar y ffeithiau'r achos.

Eglurodd yr Ymgeisydd bod y tair trosedd goryrru wedi digwydd ar adegau anodd iawn yn ei fywyd personol, sydd bellach wedi eu datrys. Derbyniodd nad oedd unrhyw esgus dros oryrru ac ymddiheurodd yn daer ynghylch hynny. Siaradodd ei gyflogwr hefyd o blaid yr Ymgeisydd gan ddweud ei fod yn yrrwr hirdymor gyda dim hanes o ddamweiniau ac nad oedd y troseddau goryrru yn nodweddiadol o'i gymeriad.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, ymhelaethodd yr Ymgeisydd ar yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r troseddau goryrru a rhoddodd sicrwydd ynghylch ei gymhwysedd gyrru a'i ymddygiad pe bai sefyllfa debyg yn digwydd yn y dyfodol. Fe sefydlwyd nad oedd wedi cael cynnig nac wedi ymgymryd â chwrs ymwybyddiaeth cyflymder cyn neu ar ôl cronni'r pwyntiau cosb. O ran ei ffitrwydd i yrru, cafwyd tystysgrif feddygol. Er bod yr Ymgeisydd wedi datgelu'r drosedd goryrru ddiweddaraf i'w gyflogwr, nododd yr Aelodau, nad oedd yr un o'r ddau wedi hysbysu'r awdurdod trwyddedu o'r euogfarn, er mai cyfrifoldeb yr Ymgeisydd oedd gwneud hynny o fewn saith niwrnod yn unol ag amodau trwyddedu. Yn ei ddatganiad terfynol, ailadroddodd yr Ymgeisydd ei fod yn edifar am y troseddau goryrru.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais -

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 523920 , gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.*

*Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –*

Roedd yr aelodau wedi ystyried yn ofalus amgylchiadau'r troseddau goryrru a'r camau lliniaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ynghyd â'i sicrwydd ynghylch ymddygiad yn y dyfodol a geirda ei gyflogwr. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw droseddau moduro pellach wedi'u cyflawni yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Canfu'r pwyllgor fod yr Ymgeisydd werth ei halen ac yn edifar am ei weithredoedd, ac ar ôl ystyried ei gymeriad da hir-sefydlog a chefnogaeth ei gyflogwr, derbyniwyd ei sicrwydd o ran ymddygiad yn y dyfodol. O ganlyniad, cafwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded a phenderfynwyd cymeradwyo'r cais adnewyddu. Fodd bynnag, roedd casglu naw pwynt cosb am droseddau goryrru mewn cyfnod cymharol fyr yn bryder difrifol ac ystyriwyd atal y drwydded am gyfnod priodol. Ar y cyfan, penderfynwyd rhoi rhybudd ffurfiol o ran ymddygiad yn y dyfodol yn yr achos hwn.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu i'r ymgeisydd.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 516098**

[Datganodd y Cynghorydd Barry Mellor gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon oherwydd bod yr ymgeisydd yn hysbys iddo ac fe adawodd y cyfarfod tra bo'r cais yn cael ei ystyried.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 516098 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
(ii) bod yr Ymgeisydd wedi'i drwyddedu gan yr awdurdod yn flaenorol ac wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor Trwyddedu ar dri achlysur gwahanol ym mis Ionawr 2010, Mawrth 2011 a Mawrth 2016 gan arwain at rybuddion ffurfiol am y ddau achlysur cyntaf a dirymu ei drwydded ar yr achlysur olaf;

(iii) polisi y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a'r

(iv) estyn gwahoddiad i'r ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i gynrychiolydd undeb, a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth (HB) yr adroddiad gan fanylu ar y ffeithiau'r achos.

Rhoddodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd rywfaint o wybodaeth gefndirol yn ymwneud â hanes blaenorol yr Ymgeisydd fel gyrrwr trwyddedig, gan dynnu sylw at y ffaith fod y cyngor wedi methu â darparu'r hyfforddiant ffurfiol priodol fel y cyfarwyddwyd gan y pwyllgor ym mis Mawrth 2011 a chyfeiriodd at effaith ac amgylchiadau dilynol yr achos yn 2016 a arweiniodd at ddirymu trwydded yr Ymgeisydd i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Roedd cwynion blaenorol wedi'u gwneud tra bod yr Ymgeisydd wedi bod yn ymgymryd â gwaith contract ysgol ond ni fu unrhyw broblem wrth gyflawni gwaith trwyddedu tacsi prif ffrwd cyffredinol. O ganlyniad, dywedodd yr Ymgeisydd, pe bai yn cael trwydded, na fyddai'n ymgymryd â gwaith cludiant ysgol. Darllenwyd geirda gan gyflogwr presennol yr Ymgeisydd yn y cyfarfod yn tynnu sylw at nifer o rinweddau da ac yn ei argymell ar gyfer cyflogaeth.

Cymerodd yr Aelodau’r cyfle i holi'r Ymgeisydd er mwyn canfod a oeddent yn ei ystyried yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Eglurodd yr Ymgeisydd, pe bai trwydded yn cael ei chaniatáu, ni fyddai'n ymgymryd â gwaith contractau ysgol ond byddai'n cludo plant o ran y gwaith arferol o yrru tacsi, e.e. codi o'r stryd / safle neu waith a archebwyd ymlaen llaw. Roedd ganddo wyrion ac wyresau ei hun, felly roedd yn ymwybodol o'u hymddygiad, a dywedodd y byddai'n iawn cyn belled bod oedolyn yng nghwmni’r plant ac yn eu cadw dan reolaeth a sicrhau nad oeddent yn ymyrryd â'i yrru. Cydnabu y gallai wynebu ymddygiad heriol gan bobl ifanc yn hwyr yn y nos a dywedodd y byddai'n gallu ymdopi gan ei fod wedi cludo plant o'r blaen heb unrhyw broblemau. O safbwynt hyfforddiant, cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd wedi derbyn hyfforddiant ar gludo plant ag anghenion arbennig ond roedd wedi derbyn yr hyfforddiant gorfodol ym maes ymwybyddiaeth Cam-drin Plant yn Rhywiol a gyflwynwyd yn ddiweddar fel rhan o broses ymgeisio'r Cyngor.

Yn ystod holi pellach o’r Ymgeisydd a'r swyddogion, fe sefydlwyd -

- roedd y pwyllgor ym mis Mawrth 2011 wedi rhoi amod a oedd yn gofyn i'r Ymgeisydd ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol priodol mewn perthynas â chludo plant ag anghenion arbennig o fewn 28 diwrnod.
- Fodd bynnag, nid oedd wedi'i egluro pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant hwnnw ac er bod rhywfaint o hyfforddiant gyrwyr wedi'i drefnu gan yr Adran Cludiant Ysgol, nid oedd wedi ymwneud yn benodol â chario plant ag anghenion arbennig. • Dadleuodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod y cyfrifoldeb ar y cyngor i hwyluso'r ddarpariaeth hyfforddiant honno. Er bod darpariaeth hyfforddiant o'r fath wedi bod yn gyfyngedig yn 2011, nodwyd bod yna lawer o sefydliadau hyfforddi a fyddai'n gallu cynnig y math hwnnw o hyfforddiant a nododd yr Ymgeisydd y byddai'n fodlon ymgymryd â hyfforddiant o'r fath yn ôl yr angen.

  • pe rhoddwyd trwydded, byddai'n cymhwyso'r Ymgeisydd i gludo plant ac unrhyw berson arall, sy'n ddiamddiffyn neu fel arall, ar unrhyw adeg, mewn cerbyd trwyddedig.

Gwnaeth cynrychiolydd yr Ymgeisydd ddatganiad terfynol gan ailadrodd y cwynion blaenorol a oedd yn gysylltiedig â phan oedd yr Ymgeisydd wedi ymgymryd â gwaith cludiant ysgol yn unig ac nid mewn unrhyw ddisgyblaeth arall ac roedd wedi bod yn fater sifil heb unrhyw gysylltiad oddi wrth yr heddlu. Er y byddai'r Ymgeisydd yn cael y cyfle i godi a chludo plant wrth weithio fel gyrrwr trwyddedig, ni

ddylai unrhyw riant ganiatáu i blant deithio ar ei ben ei hun gyda gyrrwr nad ydynt yn ei adnabod hyd nes eu bod o oedran penodol.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod cais Ymgeisydd Rhif 516098 am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Canfu'r Pwyllgor fod yr Ymgeisydd wedi methu â dangos ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat, yn benodol –

- methodd yr Ymgeisydd â dangos gwerthfawrogiad am swydd gyrrwr tacsi na chydnabod bod hon yn swydd gyda'r awdurdod lleol yn ymddiried ynddo
- roedd yr Ymgeisydd yn cydnabod cwynion blaenorol a wnaed yn ei erbyn wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel gyrrwr tacsi mewn perthynas â gwaith contract ysgol ac nad oedd wedi darparu unrhyw dystiolaeth na sicrwydd yn erbyn cwynion yn y dyfodol o ran ei ymddygiad yn hynny o beth, ond dywedodd na fyddai'n ymgymryd ag unrhyw gontractau ysgol a methodd â rhoi unrhyw hyder i'r Pwyllgor o ran ei allu neu ymddygiad
- trwy eithrio ei hun o waith contract ysgol yn wirfoddol, methodd yr Ymgeisydd hefyd i ddangos bod ganddo'r ymddiriedaeth a'r hyder ynddo'i hun i ymgymryd â'r dyletswyddau sydd eu hangen fel gyrrwr trwyddedig
- er ei fod yn ymwybodol o'i hanes blaenorol y byddai hyfforddiant mewn cludo plant ag anghenion arbennig yn ei gynorthwyo, er nad oedd yr awdurdod lleol wedi darparu'r hyfforddiant, roedd wedi methu â gwneud unrhyw hyfforddiant o'i wirfodd a allai fod wedi ei gynorthwyo neu wedi rhoi hyder i'r awdurdod lleol o ran ei gymwyseddau a'i ymddygiad
- er gwaethaf y ffaith bod yr Ymgeisydd wedi nodi na fyddai'n ymgymryd â gwaith contract ysgol, byddai rhoi trwydded iddo yn ei osod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth ac yn ei gymhwyso i gludo plant ac oedolion diamddiffyn, a rhoddwyd pwyslais mawr ar hyn gan y Pwyllgor Trwyddedu
- mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd yr Ymgeisydd mai dim ond os oedd oedolyn yn bresennol i oruchwylio y byddai'n cludo plant, fel y gallai ganolbwyntio ar ei yrru. Teimlai'r Pwyllgor fod ymateb o'r fath yn dangos nad oedd ganddo unrhyw werthfawrogiad o realiti gyrru tacsi gyda phlant a allai fod heb gwmni (e.e. 14 oed yn mynd i barti). Roedd yn rhaid i'r Pwyllgor fod â hyder yn yr Ymgeisydd pe bai sefyllfa o'r fath yn codi. Methodd yr Ymgeisydd â darparu unrhyw sicrwydd i'r Pwyllgor ac felly nid oedd ganddynt yr hyder ynddo pan allai fod mewn sefyllfa o gludo plant ac oedolion diamddiffyn
- o ran hanes ac ymddygiad yr Ymgeisydd yn y gorffennol, ni chyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor i'w perswadio y byddai'n gweithredu'n wahanol yn y dyfodol
- gwelwyd diffyg edifeirwch am ddigwyddiadau yn y gorffennol ac roedd yr Ymgeisydd wedi methu â chydnabod na dangos unrhyw ddealltwriaeth na dysgu ohonynt
- dim ond un geirda o gefnogaeth i'w gais oedd yr ymgeisydd wedi dod gydag o, oddi wrth ei gyflogwr presennol, fodd bynnag nodwyd na fyddai ei sefyllfa bresennol yn golygu cario teithwyr eraill, ac yn bennaf byddai'n danfon bwyd

O gofio mai ystyriaeth bwysicaf y Pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd, ac o ystyried ymddygiad y’r Ymgeisydd yn y gorffennol, ei gyflwyniadau a'i ymatebion i gwestiynau, methodd â dangos i'r Pwyllgor ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. O ganlyniad penderfynodd y Pwyllgor wrthod y cais.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Ymgeisydd, a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod.

Ar y pwynt hwn (11.05 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

**7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 517116**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â’r canlynol –

(i) ail-ystyried cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 517116 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn apêl yn erbyn gwrthod y cais gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mehefin 2017;

(ii) collfarnau a ddatgelwyd yn dilyn datgeliad manwl i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd ym 1988 o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, a oedd heb eu datgelu gan yr Ymgeisydd, a’r croniad o 14 pwynt cosb ar ei Drwydded Gyrru DVLA a oedd yn ymwneud a throseddau traffig a gyflawnwyd rhwng 2014 a 2015, gydag un ohonynt heb eu datgelu gan yr Ymgeisydd;

(iii) dogfennaeth berthnasol yn ymwneud â’r achos, yn cynnwys manylion cyfweliad ffurfiol yr Ymgeisydd yn amgaeedig gyda’r adroddiad;

(iv) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a’r

(v) estyn gwahoddiad i’r ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i gynrychiolydd undeb, a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth (TB) yr adroddiad gan fanylu ar y ffeithiau'r achos.

Tynnodd cynrychiolydd cyfreithiol yr Ymgeisydd sylw at yr anawsterau pan ddefnyddiwyd gwahanol reolau gan wahanol sefydliadau a arweiniodd at gamddealltwriaeth o ran datgelu euogfarnau perthnasol fel rhan o'r broses ymgeisio yn yr achos hwn. Ni fu unrhyw ymgais gan yr Ymgeisydd i dwyllo neu guddio unrhyw wybodaeth a ddaeth i’r amlwg trwy gyflwyno gwiriad DBS a gwiriad arferol hysbys o drwydded yrru DVLA yr Ymgeisydd. Cyfeiriwyd at amseriad yr

euogfarnau moduro a gafodd yr Ymgeisydd a'r euogfarnau a oedd wedi 'pasio' a oedd yn parhau ar gofnod am ddeuddeng mis pellach ac na chafwyd euogfarnau am droseddau moduro ers dros ddwy flynedd. Cyflwynwyd bod yr Ymgeisydd wedi derbyn ei gamgymeriad ac roedd o gymeriad da ac yn meddu ar y rhinweddau angenrheidiol i fod yn yrrwr trwyddedig cyfrifol a dibynadwy.

Hysbyswyd yr Aelodau am ddau fater i'w hystyried yn yr achos hwn, (1) peidio â datgelu euogfarnau perthnasol, a (2) y pwyntiau cosb a oedd yn parhau'n ddilys o ran y cais. Atebodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cael gwybod na fyddai'r euogfarnau wedi 'pasio' yn ei atal rhag cael trwydded ac roedd yn derbyn bod tri phwynt cosb yn parhau'n ddilys ar ei drwydded a'u bod wedi cael eu datgelu. Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi cael cynnig cyflogaeth pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

Yn ei ddatganiad terfynol, ailadroddodd cynrychiolydd cyfreithiol yr Ymgeisydd fod camgymeriad gwirioneddol wedi'i wneud ynghylch y diffyg datgelu, a bod yr Ymgeisydd wedi ymddiheuro am hyn a gofynnodd i'r aelodau edrych yn ffafriol ar y cais.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** *caniatáu cais Ymgeisydd Rhif 517116 am drwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ar ôl ystyried yr esboniad gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r troseddau a pheidio â datgelu troseddau perthnasol, derbyniodd yr Aelodau ei fod wedi gwneud camgymeriad gwirioneddol yn yr achlysur hwn ac ni fu unrhyw fwriad i dwyllo. Nodwyd bod y troseddau moduro wedi digwydd beth amser yn ôl ac roedd gan yr Ymgeisydd gyfnod yn rhydd o euogfarnau ers dros ddwy flynedd. Er bod rhai pwyntiau dilys ar Drwydded DVLA yr Ymgeisydd, nid oedd y pwyllgor yn eu hystyried mor ddifrifol fel ei fod yn anaddas i weithredu fel gyrrwr trwyddedig. O ganlyniad, cafwyd bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded a chytunwyd i roi rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol yng ngoleuni'r euogfarnau a dderbyniwyd.

Cafodd penderfyniad y Pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

## 8 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD DR186

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â’r canlynol –

(i) chais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif DR186 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
(ii) roedd gwiriad arferol ar Drwydded Yrru DVLA yr Ymgeisydd wedi cadarnhau'r croniad o ddeuddeg pwynt cosb am droseddau goryrru yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2013 a Rhagfyr 2016;

(iii) dogfennaeth berthnasol yn ymwneud â’r achos, yn cynnwys manylion cyfweliad ffurfiol yr Ymgeisydd ynghyd â geirdaon am ei gymeriad yn amgaeedig gyda’r adroddiad;

(iv) roedd yr Ymgeisydd wedi apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn y swyddogion yn gwrthod y cais o dan benderfyniad dirprwyedig, gan arwain at gytundeb i gyflwyno'r cais adnewyddu i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w benderfynu;

(v) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a’r

(vi) estyn gwahoddiad i’r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i gynrychiolydd undeb, a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Dywedodd cynrychiolydd cyfreithiol yr Ymgeisydd nad oedd yr Ymgeisydd yn falch o'i gofnod gyrru a chronni naw pwynt cosb (gyda’r euogfarnau hynaf wedi eu tynnu oddi ar y cofnod ers hynny) a manylodd ar yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r troseddau goryrru a gyflawnwyd mewn ardaloedd anghyfarwydd yn ei gerbyd preifat ac nid wrth weithio fel gyrrwr trwyddedig. Cyfeiriodd at feysydd o fewn polisi erlyniad y cyngor gan ddadlau nad oedd yr Ymgeisydd yn anonest ac nad oedd yn fygythiad i'r cyhoedd na diogelwch y cyhoedd, a thynnodd sylw at y geirdaon rhagorol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a ddarparwyd yn wirfoddol gan drawstoriad o'r gymuned yn tystio i'w gymeriad da. O ran sancsiynau rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod yr Ymgeisydd wedi cael ei atal am bron i ddau fis ac nad oedd wedi gallu gweithio yn ystod yr amser hwnnw a oedd wedi achosi caledi ariannol gyda rhagolygon cyflogaeth isel ar gyfer y dyfodol. Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau a rhoddodd sicrwydd ynghylch ei alluoedd gyrru. Cadarnhaodd nad oedd wedi cael cynnig cwrs ymwybyddiaeth cyflymder.

Wrth wneud datganiad terfynol, cafodd yr Ymgeisydd ei ddisgrifio gan ei gynrychiolydd cyfreithiol fel unigolyn ymroddedig a gyrrwr cymwys a oedd wedi mynegi edifeirwch gwirioneddol ac wedi cadw cofnod gyrru glân dros y deuddeng mis diwethaf. Dywedodd fod y geirdaon o ran ei gymeriad yn rhoi sicrwydd pellach ynghylch ei gymeriad yn dangos ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Gadawodd y Cynghorydd Tony Thomas y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** *caniatáu’r cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Yrrwr Rhif DR186, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.*

*Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –*

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad yn ofalus a'r cyflwyniadau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd i gefnogi ei gais. Canfu'r pwyllgor fod yr Ymgeisydd yn ddilys yn ei anerchiad a'i ymateb i gwestiynau a hefyd dangoswyd trwy eirdaon ei fod yn unigolyn dibynadwy a pharchus. O ganlyniad, cafwyd bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn â throseddau cyflymder yr Ymgeisydd a chytunwyd i roi rhybudd ffurfiol ynghylch ymddygiad yr Ymgeisydd yn y dyfodol.

Cafodd penderfyniad y Pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

## 9 DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I FANYLION PRESENNOL CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar y newidiadau arfaethedig i'r manylebau cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat presennol i'r aelodau ei ystyried.

Roedd y polisi trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ynghyd â manylebau ac amodau cerbydau, wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2016 yn dilyn ymgynghoriad helaeth a daeth i rym ar 1 Gorffennaf 2017. Roedd y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2017 wedi penderfynu gwyro o'r fanyleb polisi o ran gofynion lleiafswm gofod coesau a gofynnodd i'r swyddogion adolygu'r polisi manyleb cyfredol, yn benodol y fanyleb seddi cerbydau, ac adrodd yn ôl cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Roedd manylion y diwygiadau arfaethedig wedi'u cynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Nododd yr aelodau, heblaw am y diwygiadau at ddibenion eglurhad, fod y mwyafrif o'r diwygiadau arfaethedig yn dileu'r manylebau cerbyd mwy cyfyngol o blaid cerbydau'n "cael eu cymeradwyo yn ôl math" gan eu bod eisoes wedi'u hystyried yn addas i'r diben i gario nifer y teithwyr fel y manylwyd arnynt ar y dogfennau cofrestru cerbydau. O'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD*** *fod y diwygiadau i fanylebau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo ar unwaith.*

## 10 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU TACSIS

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau ystyried ffioedd a thaliadau cerbydau hacni / hurio preifat yn sgil yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

Cymeradwywyd y ffioedd a'r taliadau trwyddedu arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2017. Derbyniwyd un ymateb i'r ymgynghoriad fel y nodwyd yn yr adroddiad ynghyd â sylwadau'r swyddogion

mewn ymateb iddo. O ganlyniad, gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid addasu'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig ai peidio yn unol â'r sylwadau a wnaed.

Yn ystod y ddadl, eglurwyd nad oedd y cyngor yn ymgymryd â, nac yn codi am, galibro mesuryddion tacsi, a wnaed gan gwmnïau preifat.

***PENDERFYNWYD*** *yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a dderbyniwyd, bod aelodau -*

*(a) yn cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau a fanylir arnynt yn Atodiad A yr adroddiad, ac*

*(b) awdurdodi swyddogion roi'r ffioedd a'r taliadau ar waith fel y cymeradwywyd, i ddod i rym o 1 Ebrill 2018.*

## 11 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD A THALIADAU CERBYDAU HACNI

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu'r ffioedd a thaliadau cyfredol ar gyfer cerbydau hacni (tacsis).

Yn dilyn cais gan gynrychiolydd gyrwyr trwyddedig i adolygu'r ffioedd tariff presennol, roedd swyddogion wedi ymgynghori gyda phob gyrrwr i ganfod ffi tariff priodol yn seiliedig ar bump opsiwn. Roedd manylion yr ymatebion a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â sefyllfa'r awdurdod o fewn y "tabl cynghrair" o brisiau tacsis yn seiliedig ar bob opsiwn. Cyfeiriwyd at y broses benderfynu a oedd yn destun hysbysiad cyhoeddus pellach a phenderfyniad dirprwyedig yr Aelod Arweiniol cyn ei weithredu. Cynigiwyd bod unrhyw sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried ymhellach fel rhan o'r broses honno.

Trafododd yr Aelodau'r broses o wneud penderfyniadau gyda swyddogion, yn enwedig o gofio bod yr Aelod Cabinet Arweiniol perthnasol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu, a chytunodd y swyddogion i ofyn am eglurhad pellach yn hynny o beth. Cadarnhaodd swyddogion hefyd fod y tariffau mesurydd tacsi yn ymwneud â'r uchafswm ffioedd a thaliadau a osodwyd a gallai gweithredwyr godi swm is. Nododd yr Aelodau bod nifer fawr o yrwyr trwyddedig wedi gofyn am gynnydd mewn ffioedd a thaliadau.

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau yn -*

*(a) cymeradwyo newid i'r tabl taliadau presennol fel a ganlyn:*

- *Cyflwyno dewis 2 o'r costau fesul milltir.*
- *Cyflwyno newidiadau fesul cam mewn lluosrif o £0.10 fesul 1/20fed y filltir yn unig.*
- *Cynyddu'r tâl baeddu i £100.*
- *Cynyddu'r amser aros ar gyfer Tariff 1 i £0.30 y funud.*
- *Cadw amser aros ar gyfer Tariff 2 yn £0.40 y funud.*
- *Cynnwys Sul y Pasg yn Nhariff 2.*

- *Cynnwys cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio yn yr eithriadau i'r tâl bagiau*
- *Cadw'r tâl ychwanegol o £0.20 fesul eitem o fagiau y tu allan i'r adran teithiwr (ac eithrio siopa).*
- *Cyflwyno tâl ychwanegol o £0.20 i bob anifail anwes, ac eithrio cŵn tywys.*

*(b)* *awdurdodi swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer Penderfyniad Dirprwyol Aelod Arweiniol i fabwysiadu'r newidiadau yn is-baragraff (a) uchod;*

*(c)* *awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Chwefror 2018, a*

*(d)* *lle derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Ebrill 2018.*

Ymatalodd y Cynghorydd Brian Jones rhag pleidleisio ar y mater hwn.

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2018.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn yr Atodiad 1 yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **YN ATEBOL I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Mawrth 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Cyflwyniad i restr o gerbydau hygyrch penodedig ar gyfer cadeiriau olwyn |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Hysbysu Aelodau o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Deddf Cydraddoldeb a chwilio am gymeradwyaeth ar gyfer rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae Deddfwriaeth yn caniatáu i awdurdodau lleol gadw rhestr o gerbydau trwyddedig fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sy'n bodloni gofynion cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn, a phan mae rhestr yn bodoli, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod rhwymedigaethau pellach ar yrwyr a/neu berchnogion y cerbydau hynny.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i awdurdodau lleol gadw rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

**4.0 GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno sawl deddfwriaeth yn ymwneud â gwahaniaethu. Mae adrannau 160 hyd at 173 yn benodol yn trin cerbydau hurio preifat a Cherbydau Hacni.

4.2 Mae troseddau ar waith eisoes ar gyfer methu â chludo cŵn cymorth. Daeth Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dechrau ar Rif 12) adrannau 165 (teithwyr mewn cadair olwyn) ac 167 (rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn) i rym ar 6 Ebrill a fydd yn cyflwyno troseddau tebyg o wahaniaethu defnyddwyr cadair olwyn.

4.3 Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei fod nawr yn disgwyl i Gynghorau gyflwyno a chadw rhestr o gerbydau penodedig, a fydd, yn ei dro, yn creu troseddau ar gyfer torri amod y dyletswyddau a fydd yn cael eu cyflwyno. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi darparu canllawiau statudol ffurfiol sy'n gofyn i Awdurdodau Lleol gyflwyno

rhannau penodol o'r Deddf Cydraddoldeb sy'n diogelu unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn.

4.4 Gall cerbyd fod ar y rhestr benodedig os yw'n cydymffurfio gyda gofynion hygyrchedd fel mae'r awdurdod trwyddedu yn credu sy'n briodol, ond yn gyffredinol bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r gallu i fynd i mewn ac allan o gerbydau'n ddiogel er mwyn teithio'n ddiogel ac yn eithaf cyfforddus – os yw'r unigolyn ag anabledd yn aros yn y gadair ai peidio.

4.5 Bydd adran 165 yn gosod dyletswyddau penodol ar yrwyr y cerbydau penodedig, megis;

- Cludo teithiwr sy'n eistedd mewn cadair olwyn
- Peidio â chodi unrhyw dâl ychwanegol am wneud hynny
- Os yw'r teithiwr yn dymuno eistedd mewn sedd teithiwr, i gludo'r gadair olwyn
- Cymryd camau i sicrhau bod y teithiwr yn cael eu cludo'n ddiogel ac yn gyfforddus
- Rhoi cymorth symudedd o'r fath i'r teithiwr, fel sy'n ofynnol o fewn rheswm.

4.6 Cymorth symudedd yw cymorth;

- I sicrhau bod y teithiwr yn gallu mynd i mewn ac allan o'r cerbyd
- Os yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, galluogi'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd wrth eistedd yn y gadair olwyn
- I lwytho bagiau'r teithiwr i mewn ac allan o'r cerbyd
- Os nad yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, llwytho'r gadair olwyn i mewn ac allan o'r cerbyd

4.7 Ni fydd gofyn i'r cerbydau ar y rhestr orfod cario pob math o gadair olwyn, ond yn hytrach, gallu cario rhai mathau.

4.8 Gall yrwyr wneud cais ar gyfer tystysgrif eithrio os oes cyflwr meddygol arnynt, anabledd neu gyflwr corfforol sy'n ei gwneud yn amhosib neu'n afresymol o anodd iddynt ddarparu cymorth corfforol o'r fath, sy'n ofynnol o'r dyletswyddau hyn.

4.9 Os yw gyrrwr yn derbyn eithriad yn llwyddiannus, ni fydd gofyn iddynt berfformio unrhyw ddyletswyddau yn ymwneud â chymorth i deithwyr. Bydd y Cyngor yn ystyried gwybodaeth y Meddyg Teulu.

4.10 Mae Swyddogion yn cynnig dechrau cysylltu gyda pherchnogion cerbydau a fyddai'n cael eu cynnwys ar y rhestr. Os yw gyrrwr yn nodi eu bwriad i wneud cais am eithriad, bydd cyfnod rhesymol o amser yn cael ei roi er mwyn gwneud cais am yr ardystiad meddygol priodol.

4.11 Os yw hyn yn cael cymeradwyaeth y Pwyllgor, cynigir bod cyhoeddiad y rhestr benodedig yn digwydd chwe mis ar ôl y gwrandawiad hwn. Wedi'r dyddiad hwn, bydd yn drosedd cyfreithiol os yw gyrrwr yn methu â rhoi cymorth rhesymol i deithiwr mewn cadair olwyn.

4.12 Mae'r Deddf Cydraddoldeb yn galluogi perchnogion cerbydau i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i gynnwys eu cerbydau ar y rhestr benodedig. Mae'n rhaid

gwneud apêl i'r Llys Ynadol o fewn 28 diwrnod o gael eu cynnwys ar y rhestr benodedig.

## 5.0 YSTYRIAETHAU

5.1 Bod Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a'r cyngor sy'n cael ei gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a chanllaw'r Adran Drafnidiaeth.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod Aelodau'n cymeradwyo cyflwyno rhestr gyhoeddedig o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

6.2 Bod aelodau'n dirprwyo gosod y dyddiad gweithredu i'r Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

6.3 Cyfarwyddo swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu yn ystod 2018 gyda gwybodaeth ar y rhestr a baratowyd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Department for Transport

# Access for wheelchair users to Taxis and Private Hire Vehicles

# Statutory Guidance

**Moving Britain Ahead**

The Department for Transport has actively considered the needs of blind and partially sighted people in accessing this document. The text will be made available in full on the Department's website. The text may be freely downloaded and translated by individuals or organisations for conversion into other accessible formats. If you have other needs in this regard please contact the Department.

Department for Transport
Great Minster House
33 Horseferry Road
London SW1P 4DR
Telephone 0300 330 3000
Website www.gov.uk/dft
General enquiries: https://forms.dft.gov.uk

OGL

© Crown copyright 2017

Copyright in the typographical arrangement rests with the Crown.

You may re-use this information (not including logos or third-party material) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government Licence. To view this licence, visit http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ or write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or e-mail: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Where we have identified any third-party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

# Contents


Ministerial Foreword 4

1. Introduction 5

    Status of guidance 5

2. Putting the law into practice 6

    Background 6

    Transitionary arrangements 6

3. Vehicles 8

    Overview 8

    Vehicles that can be designated 8

    Preparing and publishing lists of designated vehicles 9

    Appeals 9

4. Drivers 10

    Driver responsibilities 10

    Applying for and issuing exemptions 11

    Demonstrating exemptions 12

    Appeals 12

5. Enforcement 13

    Licensing measures and prosecution 13


# Ministerial Foreword



This Government is committed to ensuring that transport works for everyone, including disabled people. Since joining the Department for Transport in 2015, and taking on Ministerial responsibility for transport accessibility, I have made it my mission to challenge the status quo and encourage innovative thinking to improve access to transport across the modes.

I know however, that despite the real improvements which have taken place in recent years, some disabled passengers still face discrimination when attempting to travel. I am clear that this is unacceptable.

Owners of assistance dogs are already protected by provisions in the Equality Act 2010 which make it unlawful to refuse or charge them extra. I want similar protections to apply to wheelchair users, which is why I am delighted that we have commenced the remaining parts of sections 165 and 167 of the Equality Act 2010, making it a criminal offence for drivers of designated taxi and private hire vehicles to refuse to carry passengers in wheelchairs, to fail to provide them with appropriate assistance, or to charge them extra. I hope that in so doing we will send a clear signal to the minority of drivers who think it acceptable to discriminate on grounds of disability that such behaviour will not be tolerated – and, more importantly, to enable wheelchair users to travel with confidence.




**Andrew Jones MP,**
**Parliamentary Under Secretary of State, Department for Transport**

# 1. Introduction

## Status of guidance

1.1 This guidance document has been issued in order to assist local licensing authorities (LAs) in the implementation of legal provisions intended to assist passengers in wheelchairs in their use of designated taxi and private hire vehicle (PHV) services. It provides advice on designating vehicles as being wheelchair accessible so that the new protections can apply, communicating with drivers regarding their new responsibilities and handling requests from drivers for exemptions from the requirements.

1.2 This is a statutory guidance document, issued under section 167(6) of the Equality Act 2010 and constitutes the Secretary of State's formal guidance to LAs in England, Wales and Scotland on the application of sections 165 to 167 of the Equality Act 2010. LAs must have regard to this guidance document.

# 2. Putting the law into practice

## Background

2.1 We have commenced sections 165 and 167 of the Equality Act 2010 ("the Act"), in so far as they were not already in force. Section 167 of the Act provides LAs with the powers to make lists of wheelchair accessible vehicles (i.e. "designated vehicles"), and section 165 of the Act then requires the drivers of those vehicles to carry passengers in wheelchairs, provide assistance to those passengers and prohibits them from charging extra.

2.2 The requirements of section 165 do not apply to drivers who have a valid exemption certificate and are displaying a valid exemption notice in the prescribed manner. An exemption certificate can be issued under section 166 of the Act, which is already in force. This allows LAs to exempt drivers from the duties under section 165 where it is appropriate to do so, on medical grounds or because the driver's physical condition makes it impossible or unreasonably difficult for them to comply with those duties.

2.3 On 15th September 2010, the Department for Transport issued guidance on the Act which stated, in relation to section 167, *"although the list of designated vehicles will have no actual effect in law until the duties are commenced, we would urge licensing authorities to start maintaining a list as soon as possible for the purpose of liaising with the trade and issuing exemption certificates".*

2.4 We therefore recognise that may LAs have already implemented some of these provisions, including publishing lists of wheelchair accessible vehicles and exempting drivers. Therefore, there are likely to be a range of approaches being used in practice by LAs across England, Wales and Scotland.

## Transitionary arrangements

2.5 We want to ensure that the commencement of sections 165 and 167 of the Act has a positive impact for passengers in wheelchairs, ensures they are better informed about the accessibility of designated taxis and PHVs in their area, and confident of receiving the assistance they need to travel safely.

2.6 But we recognise that LAs will need time to put in place the necessary procedures to exempt drivers with certain medical conditions from providing assistance where there is good reason to do so, and to make drivers aware of these new requirements. In addition, LAs will need to ensure that their new procedures comply with this guidance, and that exemption notices are issued in accordance with Government regulations. This will ensure that we get a consistent approach and the best outcomes for passengers in wheelchairs.

2.7 As such, we would encourage LAs to put in place sensible and manageable transition procedures to ensure smooth and effective implementation of this new law. LAs should only publish lists of wheelchair accessible vehicles for the purposes of

section 165 of the Act when they are confident that those procedures have been put in place, drivers and owners notified of the new requirements and given time to apply for exemptions where appropriate. We would expect these arrangements to take no more than a maximum of six months to put in place, following the commencement of these provisions, but this will of course be dependent on individual circumstances.

2.8 A flowchart setting out the sorts of processes that a LA could follow is set out below. This is an indicative illustration, and it will be down to each LA to determine the actions they need to take to ensure this new law is implemented effectively in their area.



# 3. Vehicles

## Overview

3.1 Section 167 of the Act permits, but does not require, LAs to maintain a designated list of wheelchair accessible taxis and PHVs.

3.2 Whilst LAs are under no specific legal obligation to maintain a list under section 167, the Government recommends strongly that they do so. Without such a list the requirements of section 165 of the Act do not apply, and drivers may continue to refuse the carriage of wheelchair users, fail to provide them with assistance, or to charge them extra.

## Vehicles that can be designated

3.3 We want to ensure that passengers in wheelchairs are better informed about the accessibility of the taxi and PHV fleet in their area, confident of receiving the assistance they need to travel safely, and not charged more than a non-wheelchair user for the same journey.

3.4 The Act states that a vehicle can be included on a licensing authority's list of designated vehicles if it conforms to such accessibility requirements as the licensing authority thinks fit. However, it also goes on to explain that vehicles placed on the designated list should be able to carry passengers in their wheelchairs should they prefer.

3.5 This means that to be placed on a licensing authority's list a vehicle must be capable of carrying some – but not necessarily all – types of occupied wheelchairs. The Government therefore recommends that a vehicle should only be included in the authority's list if it would be possible for the user of a "reference wheelchair"[1] to enter, leave and travel in the passenger compartment in safety and reasonable comfort whilst seated in their wheelchair.

3.6 Taking this approach allows the provisions of section 165 of the Act apply to a wider range of vehicles and more drivers than if LAs only included on the list vehicles capable of taking a larger type of wheelchair.

3.7 The Government recognises that this approach will mean that some types of wheelchair, particularly some powered wheelchairs, may be unable to access some of the vehicles included in the LA's list. The Act recognises this possibility, and section 165(9) provides a defence for the driver if it would not have been possible for the wheelchair to be carried safely in the vehicle. Paragraph 3.10 of this guidance below aims to ensure that users of larger wheelchairs have sufficient information about the vehicles that will be available to them to make informed choices about their journeys.

[1] As defined in Schedule 1 of the Public Service Vehicle Accessibility Regulations 2000

## Preparing and publishing lists of designated vehicles

3.8 We want to ensure that passengers in wheelchairs have the information they need to make informed travel choices, and also that drivers and vehicle owners are clear about the duties and responsibilities placed on them.

3.9 Before drivers can be subject to the duties under section 165 of the Act, the LA must first publish their list of designated vehicles, and clearly mark it as 'designated for the purposes of section 165 of the Act'.

3.10 LAs should ensure that their designated lists are made easily available to passengers, and that vehicle owners and drivers are made aware. Lists should set out the details of the make and model of the vehicle, together with specifying whether the vehicle is a taxi or private hire vehicle, and stating the name of operator. Where possible it would also be helpful to include information about the size and weight of wheelchair that can be accommodated, and whether wheelchairs that are larger than a "reference wheelchair" can be accommodated.

3.11 However, we recognise that some passengers in wheelchairs may prefer to transfer from their wheelchair into the vehicle and stow their wheelchair in the boot. Although the legal requirement for drivers to provide assistance does not extend to the drivers of vehicles that cannot accommodate a passenger seated in their wheelchair, we want to ensure that these passengers are provided with as much information as possible about the accessibility of the taxi and PHV fleet in their area.

3.12 We would therefore recommend that LAs also publish a list of vehicles that are accessible to passengers in wheelchairs who are able to transfer from their wheelchair into a seat within the vehicle. It should be made clear however that this list of vehicles has not been published for the purposes of section 165 of the Act and drivers of those vehicles are therefore not subject to the legal duties to provide assistance. Authorities may however wish to use existing licensing powers to require such drivers to provide assistance, and impose licensing sanctions where this does not occur.

## Appeals

3.13 Section 172 of the Act enables vehicle owners to appeal against the decision of a LA to include their vehicles on the designated list. That appeal should be made to the Magistrate's Court, or in Scotland the sheriff, and must be made within 28 days of the vehicle in question being included on the LA's published list.

# 4. Drivers

## Driver responsibilities

4.1 Section 165 of the Act sets out the duties placed on drivers of designated wheelchair accessible taxis and PHVs.

4.2 The duties are:

- to carry the passenger while in the wheelchair;
- not to make any additional charge for doing so;
- if the passenger chooses to sit in a passenger seat to carry the wheelchair;
- to take such steps as are necessary to ensure that the passenger is carried in safety and reasonable comfort; and
- to give the passenger such mobility assistance as is reasonably required.

4.3 The Act then goes on to define mobility assistance as assistance:

- To enable the passenger to get into or out of the vehicle;
- If the passenger wishes to remain in the wheelchair, to enable the passenger to get into and out of the vehicle while in the wheelchair;
- To load the passenger's luggage into or out of the vehicle;
- If the passenger does not wish to remain in the wheelchair, to load the wheelchair into or out of the vehicle.

4.4 Once the duties are commenced, it will be an offence for the driver (unless exempt) of a taxi or PHV which is on the licensing authority's designated list to fail to comply with them. We encourage LAs to provide drivers of taxis and PHVs who are not exempt from the duties with clear guidance on their duties with respect to the carriage of passengers in wheelchairs, either as part of existing driver-facing guidance, or as supplementary communication. The Disabled Persons Transport Advisory Committee's Disability Equality and Awareness Training Framework for Transport Staff[2] may provide a useful resource.

4.5 Although each situation will be different, we take the view that reasonable mobility assistance will be subject to other applicable law, including health and safety legislation. However, we would always expect drivers to provide assistance such as folding manual wheelchairs and placing them in the luggage compartment, installing the boarding ramp, or securing a wheelchair within the passenger compartment.

4.6 Depending on the weight of the wheelchair and the capability of the driver, reasonable mobility assistance could also include pushing a manual wheelchair or

---

2 http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20080804135759/http:/www.dptac.gov.uk/education/stafftraining/pdf/trainingframework-nontabular.pdf

light electric wheelchair up a ramp, or stowing a light electric wheelchair in the luggage compartment.

4.7 It is our view that the requirement not to charge a wheelchair user extra means that, in practice, a meter should not be left running whilst the driver performs duties required by the Act, or the passenger enters, leaves or secures their wheelchair within the passenger compartment. We recommend that licensing authority rules for drivers are updated to make clear when a meter can and cannot be left running.

## Applying for and issuing exemptions

4.8 Some drivers may have a medical condition or a disability or physical condition which makes it impossible or unreasonably difficult for them to provide the sort of physical assistance which these duties require. That is why the Act allows LAs to grant exemptions from the duties to individual drivers. These provisions are contained in section 166, and were commenced on 1st October 2010.

4.9 Section 166 allows LAs to exempt drivers from the duties to assist passengers in wheelchairs if they are satisfied that it is appropriate to do so on medical or physical grounds. The exemption can be valid for as short or long a time period as the LA thinks appropriate, bearing in mind the nature of the medical issue. If exempt, the driver will not be required to perform any of the duties. Since October 2010, taxi and PHV drivers who drive wheelchair accessible taxis or PHVs have therefore been able to apply for exemptions. If they do not do so already, LAs should put in place a system for assessing drivers and a system for granting exemption certificates for those drivers who they consider should be exempt.

4.10 We suggest that authorities produce application forms which can be submitted by applicants along with evidence supporting their claim. We understand that some licensing authorities have already put in place procedures for accessing and exempting drivers, and as an absolute minimum, we think that the evidence provided should be in the form of a letter or report from a general practitioner.

4.11 However, the Government’s view is that decisions on exemptions will be fairer and more objective if medical assessments are undertaken by professionals who have been specifically trained and who are independent of the applicant. We would recommend that independent medical assessors are used where a long-term exemption is to be issued, and that LAs use assessors who hold appropriate professional qualifications and who are not open to bias because of a personal or commercial connection to the applicant. LAs may already have arrangements with such assessors, for example in relation to the Blue Badge Scheme.

4.12 If the exemption application is successful then the LA should issue an exemption certificate and provide an exemption notice for the driver to display in their vehicle. As section 166 has been in force since 2010, many LAs will already have processes in place for issuing exemption certificates, and as such we do not intend to prescribe the form that those certificates should take. We are however keen to ensure that passengers in wheelchairs are able to clearly discern whether or not a driver has been exempted from the duties to provide assistance, and as such will prescribe the form of and manner of exhibiting a notice of exemption.

4.13 If the exemption application is unsuccessful we recommend that the applicant is informed in writing within a reasonable timescale and with a clear explanation of the reasons for the decision.

## Demonstrating exemptions

4.14 In addition to the exemption certificate, exempt drivers need to be issued with a notice of exemption for display in their vehicle.

4.15 The Department will soon make regulations which will prescribe the form of and manner of exhibiting a notice of exemption. Where a driver has been exempted from the duties under section 165 of the Act, they must display an exemption notice in the vehicle they are driving in the form and manner prescribed by the regulations. If the notice is not displayed then the driver could be prosecuted if they do not comply with the duties under section 165 of the Act.

4.16 The Department aims to distribute copies of the notice of exemption to LAs, but they are of course free to produce their own in accordance with the regulations.

4.17 Only one exemption notice should be displayed in a vehicle at any one time.

## Appeals

4.18 Section 172 of the Act enables drivers to appeal against the decision of a LA not to issue an exemption certificate. That appeal should be made to the Magistrate's Court, or a sheriff in Scotland, and must be made within 28 days beginning with the date of the refusal.

4.19 LAs may choose to establish their own appeal process in addition to the statutory process but this would need to be undertaken rapidly in order to allow any formal appeal to the Magistrate's Court to be made within the 28 day period.

# 5. Enforcement

## Licensing measures and prosecution

5.1 It is important to note that a driver will be subject to the duties set out in section 165 of the Equality Act 2010 if the vehicle they are driving appears on the designated list of the LA that licensed them, and the LA has not provided them with an exemption certificate, regardless of where the journey starts or ends.

5.2 The Government expects LAs to take tough action where drivers breach their duties under section 165 of the Act.

5.3 LAs have wide-ranging powers to determine the rules by which taxis and private hire vehicles within their respective areas may operate. We recommend that they use these powers to ensure that drivers who discriminate against disabled passengers are held accountable.

5.4 If a driver receives a conviction for breaching their duties under section 165 of the Act, it would be appropriate for the authority to review whether or not they remained a fit and proper person to hold a taxi or PHV drivers' licence. The Government's presumption is that a driver who wilfully failed to comply with section 165 would be unlikely to remain a "fit and proper person".

5.5 Authorities might also apply conditions which enable them to investigate cases of alleged discrimination and take appropriate action, even where prosecution did not proceed.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **YN ATEBOL I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Mawrth 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Diwygiadau arfaethedig i Fanylion presennol Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Bod aelodau yn ystyried diwygiadau arfaethedig i fanylion presennol cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ers gweithredu polisi newydd ym mis Gorffennaf 2017, daeth i sylw Swyddogion bod yr adran yn trafod drysau yn aneglur a bod yr adran yn ymwneud â hygyrchedd cadeiriau olwyn yn gyfyngol, gyda chanlyniadau anfwriadol ar y diwydiant tacsis. Mae Swyddogion yn cynnig testun diwygiedig i'r paragraffau perthnasol yn y fanyleb cerbydau ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth Aelodau.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 I atgoffa Aelodau, cafodd polisi presennol cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ynghyd â manylion ac amodau'r cerbydau, eu cymeradwyo yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2016, yn dilyn ymgynghori helaeth, a daeth i rym ar 1 Gorffennaf 2017.

4.2 Bu aelodau'n ystyried a bu chymeradwyaeth mewn Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr y llynedd ar gyfer newidiadau i'r fanyleb cerbydau, yn bennaf mewn perthynas â'r fanyleb seddau.

4.3 Gwnaed cais pellach gan y fasnach i adolygu Adran 3.11.1 (yn ymwneud â Cerbydau Hurio Preifat) a 6.5.1 (Cerbydau Hacni) y fanyleb cerbydau mewn perthynas â drysau.

4.4 Er gwybodaeth i Aelodau darllenir 3.11.1 a 6.5.1:
*"Bydd gan y cerbyd isafswm o 4 drws ochr sy'n hygyrch i deithwyr. Bydd mynediad i ac o gerbydau megis bysiau mini'n cael eu penderfynu fesul achos ee ni ddylid defnyddio'r drws cefn fel mynedfa."*

4.5 Mae pryder masnach yn ymwneud â bysiau mini/cerbydau o'r math MPV nad oes drysau agor 4 ochr iddynt, ac mae'n bwysig nodi na fyddai cyfran o fysiau mini/cerbydau o'r math MPV yn gallu bodloni'r fanyleb uchod.

4.6 Mae'n bryder iddynt hefyd bod pennu bysiau mini ar sail achosion unigol ddim yn darparu eglurder wrth edrych i ddisodli eu cerbydau. Mae posibilrwydd y gellir hyn yn arwain at farnau gwahanol yn ei dro gyda gwrthodiad ac apeliadau.

4.7 Mae cynnig felly i addasu adran 3.11.1 a 6.5.1 i ddarllen:
"Bydd gan salwnau, ystadau neu dacsis wedi'u haddasu'n arbennig fod â drysau'n agor ar y pedwar ochr, sy'n gallu cael eu hagor o'r tu mewn a'r tu allan. Bydd gan fysiau mini, faniau a cherbydau cludo criw gael tri drws o leiaf, nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddrysau cefn na thinbren."

4.8 Mae cwmnïau'n fwy awyddus i gynnig mynediad lawn i bawb yn y gymuned at dacsis. Mae Adrannau 3.14.1 a 6.8.1 ein manyleb cerbydau yn cyfyngu mynediad cadeiriau olwyn i gerbydau gyda ramp wrth ddrws cyfagos – *"Bydd ramp neu rampiau i lwytho cadair olwyn a'r teithiwr ar gael drwy'r adeg i'w defnyddio wrth y drws agosaf i ddrws cefn y teithiwr."* Oherwydd nad oes nifer sylweddol o gerbydau ar y fflyd gyda mynedfa gefn ar gyfer cadeiriau olwyn, mae'r math hwn o gerbyd hygyrch yn fwy amlwg ar y ffyrdd.

4.9 Mae'r fanyleb cerbydau eisoes yn cynnwys cyfeiriadau at lwytho / dadlwytho diogel a diogelu cadeiriau olwyn yn ogystal â defnyddio offer codi cysylltiedig - fel sy'n aml yn cael ei gysylltu gyda'r math hwn o gerbyd hygyrch. Mae cynnig felly i addasu adran 3.14.1 a 6.8.1 i ddarllen:

"Bydd ramp neu rampiau neu offer codi priodol ar gael bob amser i lwytho cadair olwyn a'r teithiwr i'w defnyddio trwy ddrws cefn yr ochr agosaf."

5. YSTYRIAETH

5.1 Bod Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad ac os yw Aelodau o blaid cymeradwyo'r fath addasiadau, byddai o fudd i ddeiliaid trwydded drwy egluro pa gerbydau fyddai'n addas i'w derbyn fel cerbyd trwyddedig.

6. ARGYMHELLIAD

61 I Aelodau ystyried yr holl wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a chymeradwyo'r diwygiadau fel y manylir ym mharagraffau 4.7 a 4.9, i ddod i rym ar unwaith.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **YN ATEBOL I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Mawrth 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Cymorth Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Deddf Gamblo 2005 –Adolygiad o'r Datganiad Egwyddorion |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Cyflwyno drafft terfynol Datganiad Egwyddorion Deddf Gamblo 2005 y Cyngor ger bron aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol â'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Datganiad Egwyddorion bob tair blynedd.

2.2 Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r Datganiad presennol ac mae ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Adran 349, Deddf Gamblo 2005

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Wrth bennu'r Datganiad Egwyddorion, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried amcanion trwyddedu'r Ddeddf Gamblo 2005 a 'Chanllaw i Awdurdodau Trwyddedu' y Comisiwn Gamblo.

4.2 Mae'r amcanion trwyddedu statudol yn cynnwys:

- Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu ecsploetiaeth yn sgil gamblo
- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd, a
- Sicrhau y cynhelir gweithgareddau gamblo mewn modd teg ac agored

4.3 Mae'r Datganiad Egwyddorion wedi cael ei ddatblygu gan y chwe Awdurdod Trwyddedu yng Ngogledd Cymru, gan ddod â chysondeb i faterion sy'n

ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Yn eu cyfarfod fis Medi 2017, rhoddodd yr aelodau awdurdod i'r swyddogion barhau gyda'r ymgynghoriad gofynnol gan gasglu unrhyw ymatebion a dderbyniwyd a dychwelyd i'r cyfarfod hwn gyda fersiwn terfynol ar gyfer eu cymeradwyaeth.

5.2 Mae'r fersiwn hwn wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar:

- Y Comisiwn Gamblo
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Yr Awdurdodau Cynllunio
- Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach
- Gwasanaethau Plant
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi
- Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych

5.2.1 Cysylltwyd â chynrychiolwyr deiliaid Trwyddedau a Hawlenni a'u cynghori ar sut i ymateb drwy wefan y Cyngor.

5.3 Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad.

**6. YSTYRIAETH**

6.1 Gofynnir i Aelodau ystyried mabwysiadau'r fersiwn a gyflwynwyd.

6.2 Er bod y fformatio wedi cael ei newid o'r fersiwn blaenorol, nid oes newidiadau sylweddol i'r Datganiad Egwyddorion fel arall, ac o'r herwydd ni fydd angen cymeradwyaeth bellach gan y Cyngor Llawn.

**7. ARGYMHELLIAD**

7.1 Bod Aelodau'n cytuno i fabwysiadu'r Datganiad Egwyddorion fel y'i cyflwynir, a'i roi ar waith o 1 Ebrill, 2018.

# Datganiad Polisi Hapchwarae

DEDDF HAPCHWARAE 2005

1af Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2021

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad** . . . . . **4**
1.1 Cefndir . . . . . 4
1.2 Daearyddiaeth Cyngor Sir Ddinbych . . . . . 5
1.3 Y Broses Ymgynghori . . . . . 5
**2. Sgôp a Graddau** . . . . . **6**
**3. Amcanion Trwyddedu** . . . . . **8**
3.1 Amcan 1: Atal Hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell Trosedd ac Anhrefn . . . . . 8
3.2 Amcan 2: Sicrhau bod Hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd Deg ac Agored . 9
3.3 Amcan 3: Amddiffyn Plant a Phobl Fregus eraill . . . . . 9
**4. Deddfwriaeth a Pholisïau** . . . . . **10**
4.1 Deddfwriaeth. . . . . 10
4.2 Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu . . . . . 10
**5. Dirprwyo, y Pwyllgor Trwyddedu a Gwneud Penderfyniadau.** . . . . . **12**
5.1 Dirprwyo . . . . . 12
5.2 Y Pwyllgor Trwyddedu . . . . . 12
5.3 Gwneud Penderfyniadau . . . . . 14
**6. Egwyddorion Cyffredinol** . . . . . **15**
6.1 Awdurdod Cymwys ar gyfer amddiffyn plant rhag niwed . . . . . 15
6.2 Partïon â Diddordeb . . . . . 16
6.3 Cyfnewid Gwybodaeth . . . . . 16
6.4 Archwilio a Chamau Troseddol . . . . . 17
**7. Y Broses Drwyddedu.** . . . . . **19**
7.1 Ceisiadau . . . . . 19
7.2 Cyflafareddu . . . . . 20
7.3 Amodau . . . . . 21
7.4 Adolygiadau . . . . . 21
**8. Safonau Lleol.** . . . . . **23**
8.1 Trwyddedau Eiddo . . . . . 23
8.2 Rhybuddion . . . . . 26
8.3 Hawlenni . . . . . 27
8.4 Cofrestriadau . . . . . 29
8.5 Asesiadau Risg Lleol . . . . . 30
**9. Cwynion yn erbyn Eiddo Trwyddedig** . . . . . **31**
**10. Gwybodaeth Bellach** . . . . . **32**
10.1 Peiriannau Hapchwarae . . . . . 32
10.2 Y Gofrestr Trwyddedu . . . . . 33
10.3 Cronfa Ddata o Gofnodion Eiddo . . . . . 33
**Atodiad A: Rhestr Termau** . . . . . **34**
**Atodiad B: Dirprwyo Gwneud Penderfyniadau** . . . . . **38**
**Atodiad C: Crynodeb o Beiriannau Hapchwarae** . . . . . **39**

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 CEFNDIR

1.1.1 O dan ddarpariaethau Deddf Hapchwarae 2005, Cyngor Sir Ddinbych yw'r **Awdurdod Trwyddedu** (a chyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "yr awdurdod trwyddedu") sydd yn gyfrifol am roi Trwyddedau Eiddo, Rhybuddion, Hawlenni a Chofrestriadau hapchwarae yn Sir Ddinbych.

1.1.2 Mae Deddf Hapchwarae 2003 ("y Ddeddf") yn gofyn i awdurdod trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad polisi trwyddedu ("y polisi") bob tair blynedd o leiaf. Llunnir y polisi hwn o dan Adran 349 y Ddeddf ac yn unol â'r 'Canllawiau i Awdurdodau Lleol' a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae o dan Adran 25 y ddeddf ("y Canllaw").

1.1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i rwymo gan y Ddeddf ac unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi sylw i Ganllawiau ac Amodau'r Drwydded a'r Codau Ymarfer (Cyll) a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae (Adran 153). Os yw'r awdurdod trwyddedu yn pennu ei fod yn briodol, gall wyro oddi wrth y Canllawiau os oes ganddo reswm da dros wneud hynny ac os yw'n gallu rhoi rhesymau llawn.

1.1.4 Mabwysiadwyd y polisi gan Gyngor Sir Ddinbych ar **8fed Mawrth 2018** wedi iddo ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy. Bydd y polisi yn dod i rym o'r 1af Ebrill 2018 ac yn aros mewn grym hyd nes y pennir bod angen adolygiad statudol neu arall a phroses ymgynghori. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i adolygu'r polisi gan wneud unrhyw newidiadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i gefnogi'r amcanion trwyddedu. Cyhoeddir unrhyw welliannau ar ffurf datganiad polisi newydd neu, os yw'n briodol, drwy gyhoeddi'r gwelliant.

1.1.5 Fel arfer, bydd y polisi'n berthnasol i benderfyniad ar unrhyw gais a wnaethpwyd ar ôl y dyddiad pan benderfynodd yr awdurdod trwyddedu wneud y polisïau hyn yn weithredol, beth bynnag oedd dyddiad cyflwyno'r cais.

1.1.6 Cyflwynir egwyddorion y polisi yn y blychau tywyll.

1.1.7 Dylid darllen yr Atodiadau ynghyd â'r polisi hwn er nad ydynt yn rhan o'r polisi ac fe ellir eu diweddaru unrhyw bryd.

## 1.2 DAEARYDDIAETH CYNGOR SIR DDINBYCH

1.2.1 Mae Sir Ddinbych yn sir wledig yn bennaf, sy'n cwmpasu ardal sy'n mynd o gyrchfannau arfordirol Gogledd Cymru y Rhyl a Phrestatyn i lawr trwy Ddyffryn Clwyd, cyn belled â Chorwen a thref dwristaidd boblogaidd Llangollen. Ar hyd y ffordd ceir trefi hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun, pob un â'i chastell ei hun, a dinas Llanelwy â'i chadeirlan.

1.2.2 Mae'r diwydiant hamdden a thwristiaeth yn Sir Ddinbych yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol.

1.2.3 Mae dros bum miliwn o dwristiaid ac ymwelwyr yn cael eu denu i Sir Ddinbych bob blwyddyn.

1.2.4 Yn Sir Ddinbych mae dros 39 eiddo wedi'u hawdurdodi trwy drwydded eiddo, rhybudd neu hawlen o dan Ddeddf Hapchwarae 2005.

## 1.3 Y BROSES YMGYNGHORI

1.3.1 Roedd Datganiad drafft y Polisi Trwyddedu yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda:

- Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru;
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- Cynrychiolwyr deiliaid yr amrywiol drwyddedau eiddo yn yr Ardal fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn;
- Personau neu fusnesau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan hapchwarae trwyddedig yn yr Ardal.

1.3.2 Cafodd y Datganiad Polisi Trwyddedu drafft ei hysbysebu hefyd ac roedd ar gael i'w archwilio ar wefan yr awdurdod trwyddedu, ac mewn swyddfeydd cyngor a llyfrgelloedd am gyfnod o bedair wythnos yn unol â gofynion y Ddeddf.

1.3.3 Fe wnaeth yr awdurdod trwyddedu, gan roi ystyriaeth gyflawn i'r Canllawiau, roi pwys priodol i farn y sawl yr ymgynghorwyd â nhw. Wrth bennu pa bwys i roi i'r sylwadau, ystyriodd yr awdurdod trwyddedu:

- pwy wnaeth y sylw (beth yw eu harbenigedd neu ddiddordeb)
- faint o bobl eraill sydd wedi mynegi'r un farn neu farn debyg
- pa mor berthnasol yw'r sylwadau i faterion y dylai'r awdurdod trwyddedu eu cynnwys yn y datganiad polisi.

# 2. SGÔP A GRADDAU

2.0.1 Diben y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yw amlinellu'r egwyddorion y bydd yr awdurdod trwyddedu'n eu rhoi ar waith wrth fynd i'r afael â'i swyddogaeth trwyddedu e.e. wrth reoleiddio'r gweithgareddau hapchwarae yn unol â thelerau'r Ddeddf. Cyfeirir at y Ddeddf er dibenion dealltwriaeth ond ni fwriedir iddi fod yn grynodeb syml o'r gyfraith.

2.0.2 Mae'r Ddeddf yn diffinio **Hapchwarae** fel:-

2.0.3 **Hapchwarae** - sy'n golygu chwarae 'gêm hap' am wobr. Mae 'gêm hap' yn cynnwys gêm sydd ag elfen o hap a sgìl, gêm sy'n cynnwys elfen o hap fedr gael ei diddymu gan lefel uchel o sgìl, a gêm sy'n cael ei chyflwyno fel un ag elfen o hap, ond nid yw'n cynnwys unrhyw chwaraeon.

2.0.4 **Betio** - yn golygu gwneud neu dderbyn bet ar ganlyniad ras, cystadleuaeth, neu unrhyw ddigwyddiad arall; y tebygolrwydd o unrhyw beth yn digwydd neu'n peidio â digwydd; neu os yw rhywbeth yn wir ai peidio.

2.0.5 **Cymryd rhan mewn loteri** - yn golygu talu i gymryd rhan mewn trefniant ble caiff un wobr neu fwy ei chyflwyno trwy broses sy'n llwyr ddibynnol ar hap.

Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf a'r polisi hwn yn **Atodiad A**.

2.0.6 Mae'n drosedd o dan Adran 33 y Ddeddf i ddarparu cyfleusterau ar gyfer Hapchwarae oni bai bod eithriad wedi cael ei wneud un unol â'r Ddeddf.

2.0.7 Y **mathau o awdurdodaeth** sy'n rhaid eu rheoli o dan Ddeddf yr awdurdod trwyddedu yw:-

- Trwyddedau Eiddo
- Rhybuddion Defnydd Dros Dro
- Rhybuddion Defnydd Achlysurol
- Hawlenni sy'n ofynnol o dan y Ddeddf; a
- Chofrestriadau fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

2.0.8 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r holl drwyddedau, rhybuddion, caniatâd a chofrestriadau eiddo sy'n cael eu cynnwys yn rhinwedd y Ddeddf, sef: -

- Trwyddedau Eiddo
    - Casinos;
    - Eiddo Bingo;

    - Eiddo Betio;
    - Traciau (*safle ble mae rasys neu ddigwyddiadau chwaraeon eraill yn cael eu cynnal);*
    - Canolfannau Hapchwarae i Oedolion;
    - Canolfannau Adloniant Teulu Trwyddedig;
- Rhybuddion
    - Rhybuddion Defnydd Dros Dro
    - Rhybuddion Defnydd Achlysurol
- Hawlenni
    - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Canolfan Adloniant Teulu;
    - Hawlenni Clybiau Hapchwarae;
    - Hawlenni Clwb Peiriannau Hapchwarae;
    - Hawlenni Peiriannau Hapchwarae i eiddo â thrwydded Alcohol;
    - Hawlenni Hapchwarae am Wobrau;
- Cofrestriadau
    - Cofrestru loteri Cymdeithasau Bychain.

# 3. AMCANION TRWYDDEDU

3.0.1 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf, dylai'r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo'r tri **amcan trwyddedu** a gynhwysir yn y Ddeddf. Y tri amcan yw:

- atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored; ac
- amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae.

## 3.1 AMCAN 1: ATAL HAPCHWARAE RHAG BOD YN FFYNHONNELL TROSEDD AC ANHREFN

3.1.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu, wrth bennu ceisiadau, yn ystyried a fydd caniatáu trwydded eiddo yn peri cynnydd mewn trosedd ac anhrefn.

3.1.2 Mae Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi "y bwriedir i anhrefn olygu gweithgarwch sy'n fwy difrifol ac aflonyddgar na niwsans. Mae'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a oedd aflonyddwch yn ddigon difrifol i gael ei gyfrif yn anhrefn ai peidio yn cynnwys: pa un ai a oedd angen cymorth yr heddlu ai peidio, a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r sawl a'i gwelodd neu a'i clywodd." Mae'r awdurdod trwyddedu'n cytuno â'r datganiad hwn.

3.1.3 Anogir ymgeiswyr i drafod y gweithdrefnau atal trosedd yn eu heiddo gyda Swyddogion Trwyddedu eu hawdurdod trwyddedu a/neu Heddlu Gogledd Cymru cyn gwneud cais ffurfiol.

3.1.4 O ystyried y ceisiadau am drwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried yr hyn a ganlyn yn arbennig:

- Dyluniad a gosodiad yr eiddo;
- Yr hyfforddiant ar fesurau atal troseddu a roddir i staff ac sy'n addas ar gyfer yr eiddo hwnnw;
- Nodweddion diogelwch ffisegol a osodwyd ar yr eiddo. Gall hyn gynnwys materion megis lleoliad y tiliau neu safon y TCC sydd wedi ei osod;
- Ble mae eiddo yn ddibynnol ar gyfyngiadau oedran, bod gweithdrefnau wedi eu sefydlu i gynnal gwiriadau oedran;
- Tebygolrwydd y cyfyd unrhyw drais, neu broblem trefn gyhoeddus neu gadw trefn os rhoddir y drwydded.

## 3.2 AMCAN 2: SICRHAU BOD HAPCHWARAE'N CAEL EI GYNNAL MEWN FFORDD DEG AC AGORED

3.2.1 Yn gyffredinol, ni fyddai'r Comisiwn yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymgymryd â sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored gan mai mater naill ai i reolwyr y busnes hapchwarae ydyw, ac yn hynny o beth yn ddarostyngedig i'r Drwydded Weithredu, neu fe fydd yn ymwneud ag addasrwydd a gweithredoedd unigolyn, gan felly fod yn ddarostyngedig i'r Drwydded Bersonol. Cyfrifoldeb y Comisiwn Hapchwarae yw'r ddwy drwydded.

## 3.3 AMCAN 3: AMDDIFFYN PLANT A PHOBL FREGUS ERAILL

3.3.1 Gydag eithriadau cyfyngedig, nid oes caniatâd i blant a phobl ifanc fynd i eiddo sydd wedi'i drwyddedu ar gyfer hapchwarae ac sy'n amgylchedd i oedolion yn unig.

3.3.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ceisio cyfyngu'r hysbysebu ar gyfer eiddo fel bod plant ddim yn cael eu targedu gan gynnyrch hapchwarae a bod y cynnyrch ddim ychwaith yn cael ei hysbysebu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn arbennig o ddeniadol i blant.

3.3.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymgynghori â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw gais sy'n dangos y gallai pryderon godi yn sgil mynediad i blant neu bobl fregus.

3.3.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n barnu rhinweddau pob cais yn unigol cyn penderfynu a ddylid gosod amodau i amddiffyn plant ar eiddo o gategori penodol ai peidio. Gall hyn gynnwys gofynion megis:

- Goruchwylio mynedfeydd;
- Gwahanu'r ardaloedd hapchwarae oddi wrth yr ardaloedd sy'n cael eu mynychu gan blant;
- Goruchwylio peiriannau hapchwarae mewn eiddo hapchwarae-benodol sydd ddim ar gyfer oedolion.

3.3.5 Mae Deddf 2005 yn cynnwys Cod Ymddygiad ar fynediad i eiddo casino gan blant a phobl ifanc a bydd yr awdurdod trwyddedu'n gweithio'n glos gyda'r heddlu er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n briodol.

3.3.6 Nid yw'r awdurdod trwyddedu'n ceisio gwahardd grwpiau penodol o oedolion rhag hapchwarae yn yr un ffordd ag y mae'n mynd ati i wahardd plant, ond bydd yn derbyn, am resymau rheolaethol, **bod pobl fregus** yn cynnwys:

- pobl sy'n hapchwarae yn amlach nag y maent yn dymuno gwneud;
- pobl sy'n hapchwarae mwy nag y maent yn medru ei fforddio; a
- phobl nad ydynt yn medru gwneud penderfyniad deallus neu gytbwys ynglŷn â hapchwarae oherwydd anallu meddyliol, alcohol neu gyffuriau.

# 4. DEDDFWRIAETH A PHOLISÏAU

## 4.1 DEDDFWRIAETH

4.1.1 Wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau trwyddedu yn unol â Deddf Hapchwarae 2005, bydd yr awdurdod trwyddedu yn defnyddio ystod gyflawn o fesurau, gan gynnwys ei reolau cynllunio, a bydd yn rhoi sylw i ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau a all gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974;
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Trwyddedu 2003
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Cod Cydymffurfio Rheoleiddwyr
- Polisi Gorfodaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Nid oes bwriad, fodd bynnag, i'r polisi ddyblygu deddfwriaeth bresennol a threfn reolaethol sydd eisoes yn ymrwymo cyflogwyr a gweithredwyr.

## 4.2 CYNLLUNIO A RHEOLAETH ADEILADU

4.2.1 Mae cyfundrefnau cynllunio, rheolaeth adeiladu a thrwyddedu yn llwyr ar wahân er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithiolrwydd. Maent yn ymwneud ag ystyried materion sy'n wahanol er yn berthnasol i'w gilydd.

4.2.2 Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifoldeb cynllunio statudol o fewn y Sir.

4.2.3 Mae polisïau cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol'.

4.2.4 Mae'r Awdurdod Cynllunio yn datblygu eu cynlluniau i:

- sicrhau cynllunio effeithiol a chynaliadwy dros y tymor hir, ac
- uchafu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

4.2.5 Yn gyffredinol, mae caniatâd cynllunio yn awdurdodi math o ddefnydd cyffredinol ar eiddo ac mae trwyddedau yn cael eu rhoi ar gyfer math penodol o weithgaredd. Er

enghraifft, gall caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd adloniannol roi caniatâd i weithgareddau a allai gael effaith eang ac amrywiol ar yr ardal leol. Mae angen ystyried gwir natur effeithiau'r gweithgareddau penodol a fwriedir gan ymgeisydd am drwydded eiddo pan gaiff cais ei gyflwyno.

4.2.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn disgwyl bod y caniatâd cynllunio priodol wedi'i roi ar gyfer unrhyw eiddo cyn cyflwyno cais trwyddedu. Fodd bynnag, gellir cyflwyno ceisiadau am drwyddedau cyn y gwneir cais am unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol neu cyn y rhoddir caniatâd cynllunio o’r fath.

4.2.7 Yn ogystal, bydd yr awdurdod, fel arfer, yn disgwyl i’r gweithgaredd a awdurdodir gan y drwydded fod yn ddefnydd cynllunio cyfreithiol ac nad yw'r oriau gweithredu a geisir yn mynd yn groes i'r oriau a awdurdodwyd gan y caniatâd cynllunio, os yw hynny'n berthnasol.

4.2.8 Nid yw'r oriau gweithredu a ganiateir yn y broses drwyddedu yn disodli unrhyw gyfyngiadau a nodwyd fel amod cynllunio. Ymdrinnir ag amodau cynllunio drwy’r broses gynllunio.

# 5. DIRPRWYO, Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GWNEUD PENDERFYNIADAU

## 5.1 DIRPRWYO

5.1.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymdrin ag ystod eang o benderfyniadau a swyddogaethau trwyddedu ac mae wedi sefydlu Pwyllgor Trwyddedu i'w gweinyddu. Mae'r Pwyllgor, yn ei werthfawrogiad o'r angen am wasanaeth cyflym, effeithlon a chost-effeithiol i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses drwyddedu, wedi dirprwyo rhai penderfyniadau a swyddogaethau ac mae wedi sefydlu Is-bwyllgor i ymdrin â nhw.

5.1.2 Gweinyddol yn unig fydd natur llawer iawn o'r penderfyniadau a'r swyddogaethau a bydd caniatáu ceisiadau nad ydynt yn rhai cynhennus, er enghraifft y trwyddedau a'r caniatadau ble na cheir unrhyw sylwadau, yn cael ei ddirprwyo i Swyddogion y Cyngor.

5.1.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dirprwyo materion trwyddedu at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu ac i Swyddogion yn unol â'r canllawiau Dirprwyo Swyddogaethau cymeradwy diweddaraf a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 y Ddeddf. Mae'r tabl yn **Atodiad B** yn amlinellu dirprwyaeth bresennol y penderfyniadau a'r swyddogaethau a roddir i'r Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor a Swyddogion.

5.1.4 Mae'r dull hwn o ddirprwyo yn un sydd ddim yn rhagfarnu Swyddogion sy'n trosglwyddo cais i Is-bwyllgor neu Bwyllgor, neu Bwyllgor i Gyngor Llawn, os yw'n briodol.

## 5.2 PWYLLGOR TRWYDDEDU

5.2.1 Mae'r Ddeddf yn golygu bod rhaid i swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu, gan gynnwys ei benderfyniadau, gael eu gweithredu gan ei bwyllgor trwyddedu. Yng Nghyngor Sir Ddinbych, cyfeirir at y pwyllgor hwn fel y Pwyllgor Trwyddedu ac mae 11 o aelodau yn gwasanaethu arno.

5.2.2 Gall y pwyllgor trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i is-bwyllgorau neu, mewn achosion priodol, i swyddogion sy'n rhoi cefnogaeth i'r awdurdod trwyddedu.

5.2.3 Mae Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych wedi penodi **Is-Bwyllgor Trwyddedu** i ymdrin â

- Cheisiadau ble mae sylwadau perthnasol wedi dod i law
- Ceisiadau i adolygu trwyddedau eiddo
- Ceisiadau ar gyfer hawlenni hapchwarae/ peiriannau i glybiau ble cyflwynwyd sylwadau perthnasol
- Penderfyniad i roi gwrth rybudd ar Rybudd Defnydd Dros Dro.

5.2.4 Mae tri aelod yn gwasanaethu ar yr Is-bwyllgor a fydd yn gwrando ar geisiadau ble derbyniwyd sylwadau gan bartïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol. Ni fydd cynghorwyr ward yn gwasanaethu ar is-bwyllgor sy'n ymwneud â chais yn eu ward nhw.

5.2.5 Pan yw cynghorydd sy'n aelod o'r **Pwyllgor Trwyddedu** yn gwneud neu wedi gwneud sylwadau ynglŷn â thrwydded ar ran parti a chanddo ddiddordeb, er budd llywodraethu da, byddant yn anghymwyso eu hunain rhag cymryd rhan yn y penderfyniad sydd ynghlwm â'r drwydded dan sylw.

5.2.6 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn trosglwyddo unrhyw fater nad yw'n medru ymdrin ag o, oherwydd nifer yr aelodau sydd yn methu ag ystyried na thrafod unrhyw fater neu bleidleisio dros unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r mater hwnnw, i'r Pwyllgor Trwyddedu.

5.2.7 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn trosglwyddo unrhyw fater nad yw'n medru ymdrin ag o, oherwydd y nifer o'i aelodau sy'n methu ag ystyried na thrafod unrhyw fater neu bleidleisio dros unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r mater hwnnw, i'r Cyngor Llawn.

## 5.3 GWNEUD PENDERFYNIADAU

5.3.1 Bydd rhesymau eglur ac argyhoeddiadol yn cael eu cyflwyno gydag unrhyw benderfyniad trwyddedu gan y Pwyllgor Trwyddedu neu'r Is-bwyllgor. Bydd y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu hanfon at yr Ymgeisydd a'r sawl sydd wedi gwneud sylwadau perthnasol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

5.3.2 Caiff crynodeb o'r penderfyniad ei roi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib ar ôl i'r penderfyniad gael ei gadarnhau. Yma bydd yn dod yn rhan o'r gofrestr trwyddedu statudol y mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ei chadw.

5.3.3 Bydd swyddogion trwyddedu'r Cyngor yn ymdrin â phob cais arall am drwydded ble naill ai nad oes sylwadau wedi eu derbyn, neu, ble mae sylwadau wedi eu derbyn ac mae'r ddwy garfan wedi cytuno nad oes angen gwrandawiad.

5.3.4 Swyddogion y Cyngor fydd yn penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn wamal neu'n flinderus; nhw hefyd fydd yn penderfynu a ddylai sylwadau neu geisiadau ar gyfer adolygu trwyddedau gael eu trosglwyddo i'r pwyllgor trwyddedu neu'r is-bwyllgor. Pan wrthodir sylwadau, bydd y rhesymau'n egluro'r penderfyniad yn cael eu cyflwyno'n ysgrifenedig.

5.3.5 Er mwyn osgoi dyblygu gweithdrefnau statudol eraill, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amodau ar drwydded, cyn belled ag y bo modd, oni bai eu bod yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol er hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Ystyrid bod amodau, ar y cyfan, yn ddianghenraid os ydynt eisoes yn derbyn ymdriniaeth dan ddeddfwriaeth arall.

# 6. EGWYDDORION CYFFREDINOL

6.0.1 Ni fydd unrhyw beth yn y 'Datganiad Polisi' hwn yn:

- Tanseilio hawliau unrhyw berson i wneud cais am amryw o ganiatadau o dan y Ddeddf ac i'r cais gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun; NAC YN
- Gwrthwneud hawl unrhyw berson i wneud sylwadau ar unrhyw gais na cheisio cael adolygiad ar drwydded neu ganiatâd ble mae hawl ganddynt i wneud hynny yn unol â'r Ddeddf.

6.0.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu, wrth fynd i'r afael â'i swyddogaeth trwyddedu, yn rhoi sylw i'r angen i ddileu unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng grwpiau o bobl o hil wahanol.

6.0.3 Nod yr awdurdod trwyddedu fydd caniatáu defnyddio eiddo ar gyfer hapchwarae, cyn belled â'i fod yn credu ei fod

- Yn cydymffurfio ag unrhyw godau ymarfer perthnasol o dan Adran 24 y Ddeddf;
- Yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn;
- Yn cydymffurfio'n rhesymol â'r amcanion trwyddedu
- Yn cydymffurfio â datganiad polisi trwyddedu'r awdurdod trwyddedu.

6.0.4 Nid yw galw heb ei ddiwallu yn faen prawf fydd yn cael ei ystyried wrth bennu cais am drwydded eiddo o dan y Ddeddf.

## 6.1 AWDURDOD CYMWYS AR GYFER AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

6.1.1 Mae'r awdurdod trwyddedu yn dynodi Tîm Diogelu ac Adolygu (Gwasanaethau Cymdeithasol) Cyngor Sir Ddinbych fel yr awdurdod cymwys i roi gwybodaeth ar amddiffyn plant rhag niwed gan fod ganddo gyfoeth o wybodaeth arbenigol ac arbenigedd wrth law i gyflawni'r rôl hon.

6.1.2 Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i bob awdurdod trwyddedu enwebu corff unigol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon ond fe allai fod yn ddoeth i'r awdurdod trwyddedu gynnwys sefydliadau eraill os yw o'r farn ei bod yn iawn iddo wneud hynny er atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol, yn arbennig ble mae'n derbyn sylwadau i'r perwyl hynny.

## 6.2 PARTÏON Â DIDDORDEB

6.2.1 At ddibenion Deddf Hapchwarae 2005, mae person yn barti â diddordeb yng nghyswllt trwydded eiddo os, ym marn yr awdurdod trwyddedu sydd naill ai'n rhoi'r drwydded neu sydd wedi derbyn y cais, yw'r person:

- Yn byw yn ddigon agos at yr eiddo fel y byddai'n debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
- Yn meddu ar fuddion busnes a allent gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig. Gall hyn hefyd gynnwys, er enghraifft, sefydliadau masnachol, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.
- Yn cynrychioli personau sy'n perthyn i'r naill garfan uchod neu'r llall, er enghraifft, Cymdeithas Preswylwyr a Thenantiaid.

6.2.2 Wrth ystyried a yw person yn barti â diddordeb, bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei rinweddau ei hun gan roi ystyriaeth i'r amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu cynnwys yn yr Arweiniad i awdurdodau lleol.

6.2.3 Pan yw person, boed ef neu hi yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan gais neu yn byw ger eiddo sydd dan ystyriaeth ar gyfer trwyddedu, yn ei gyflwyno ei hun fel cynrychiolydd buddion trigolion yr ardal gyfagos, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn gofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth eu bod yn gweithredu ar ran eraill.

## 6.3 CYFNEWID GWYBODAETH

6.3.1 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau a'i ddyletswyddau trwyddedu yn unol â Deddf Hapchwarae 2005, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol gyda chyrff rheoleiddio eraill a bydd yn sefydlu protocolau yn unol â hyn. Wrth gyfnewid gwybodaeth o'r fath, bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweithredu yn unol â gofynion y Ddeddf Hapchwarae, Amddiffyn Data a deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth yn unol â pholisïau presennol y Cyngor.

6.3.2 Bydd manylion cyswllt y sawl sy'n gwneud sylwadau, ynghyd â manylion y sylwadau, ar gael i'r ymgeiswyr er mwyn galluogi negodi a, phe cynhelir gwrandawiad, byddant yn cael eu cynnwys mewn dogfen gyhoeddus. Bydd unrhyw un sy'n gwneud sylwadau neu'n gwneud cais am adolygu trwydded eiddo yn cael eu hysbysu bod y manylion hyn yn mynd i gael eu datgelu.

## 6.4 ARCHWILIO A CHAMAU TROSEDDOL

6.4.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn dilyn Arweiniad y Comisiwn Hapchwarae a bydd yn ceisio bod yn:

- **Gymedrol**: bydd yr awdurdodau rheoli ddim ond yn ymyrryd ble y bo'n briodol; bydd datrysiadau'n gymesur â'r risg a berwyd a'r costau a adnabuwyd ac a'u lleihawyd.
- **Atebol**: bydd yr awdurdodau rheoli yn medru cyfiawnhau penderfyniadau a bod yn destun craffu cyhoeddus.
- **Cyson**: bydd rheolau a safonau yn gydgysylltiedig ac yn cael eu rhoi ar waith yn deg.
- **Tryloyw**: bydd rheolyddion yn ymddwyn yn agored ac yn ymdrechu i gadw rheoliadau'n syml ac yn rhwydd i ddefnyddwyr;
- **Targedu**: bydd sylw rheoleiddio'n cael ei roi i'r broblem ac ar leihau'r sgil effeithiau.

6.4.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.

6.4.3 Mae'r awdurdod trwyddedu yn adnabod, ar wahân i'r swyddogaeth trwyddedu, bod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i ymdrin â materion ymddygiad afreolus sy'n medru digwydd y tu hwnt i eiddo trwyddedig, gan gynnwys:

- Rheolaeth gynllunio;
- Mesurau sy'n creu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hyn mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithwyr cludiant ac adrannau eraill y Cyngor;
- Ymgysylltu cyson gyda'r Heddlu ar faterion gorfodi'r gyfraith sy'n ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Grym yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu breswylwyr neu fusnesau lleol i wneud cais am adolygu trwydded.

6.4.4 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn defnyddio meini prawf arolwg sy'n seiliedig ar risg ar gyfer unrhyw arolygiadau hanfodol, h.y. bydd yr eiddo hynny y bernir eu bod yn peri mwy o risg yn cael eu harolygu’n amlach na'r rhai sy'n peri llai o risg.

6.4.5 Wrth bennu risg, rhoddir ystyriaeth i:-

- natur y gweithgareddau hapchwarae sy'n digwydd yn yr eiddo
- lleoliad yr eiddo mewn perthynas ag ysgolion ac ati
- y gweithdrefnau a osodwyd gan y tîm rheoli i ddiwallu'r amcanion trwyddedu.

6.4.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwneud trefniadau i fonitro eiddo, cynnal archwiliadau a chymryd camau gweithredu priodol os yw o'r farn bod angen gwneud hynny i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu neu yn dilyn cwyn. Bydd y Sir yn cael ei monitro rhag eiddo heb ei drwyddedu.

6.4.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio gweithio'n rhagweithiol gyda'r heddlu wrth orfodi deddfwriaeth trwyddedu. Mae'n annog yr heddlu i rannu gwybodaeth ynglŷn â deiliaid trwydded ac eiddo trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

6.4.8 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodaeth cytunedig ac yn unol â Pholisi Gorfodaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y cymerir camau gweithredu. I'r perwyl hwn, glynir at yr egwyddorion allweddol o gysondeb, tryloywder a chyfranoledd.

6.4.9 Pan yw amodau wedi'u gosod ar drwydded, gall person awdurdodedig o'r awdurdod trwyddedu archwilio'r eiddo ar unrhyw adeg resymol er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â'r amodau hynny.

6.4.10 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cyflwyno rhybudd anffurfiol ysgrifenedig i ddeiliad trwydded sy'n argymell gwelliannau penodol mewn cyfnod o amser os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

# 7. Y BROSES DRWYDDEDU

7.0.1 **Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod y broses ymgeisio ar gyfer pob math o awdurdodiad neu ganiatâd wedi ei chyflwyno'n fanwl yn y Ddeddf, yn y Rheoliadau ac yn y Canllawiau.**

7.0.2 Rhaid cyflwyno pob cais ar y ffurflen berthnasol gyda'r ffi berthnasol. Gellir lawrlwytho'r holl ddogfennau a'r rhybuddion penodedig o wefan y Comisiwn: **www.gamblingcommission.gov.uk** .

7.0.3 Mae pob ffurflen gais leol ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac fe ellir eu lawr lwytho o wefan yr awdurdod trwyddedu. Gellir gwneud cais am ffurflen gais yn uniongyrchol i'r awdurdod trwyddedu drwy ffonio 01824 706342.

7.0.4 Gall ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau i'r awdurdod trwyddedu yn electroneg, ar ffurf copi caled neu ar e-bost i **trwyddedu@denbighshire.gov.uk**.

## 7.1 CEISIADAU

7.1.1 Y man cychwyn wrth arfarnu ceisiadau yw caniatáu'r cais, yn ddiamod.

7.1.2 Rhoddir ystyriaeth i amodau ddim ond ble mae angen iddynt ddiwallu gofynion yr amcanion trwyddedu ac ni fydd unrhyw amodau a roddir yn rhy feichus a byddant yn cyfateb â maint y cais a'r 'risgiau' sydd ynghlwm. Ystyrid bod amodau, ar y cyfan, yn ddianghenraid os ydynt eisoes yn derbyn ymdriniaeth o dan ddeddfwriaeth arall.

7.1.3 Wrth arfarnu cais i roi trwydded eiddo neu i adolygu trwydded eiddo, rhoddir sylw i

- agosrwydd yr eiddo at ysgolion, canolfannau oedolion bregus, neu at ardaloedd preswyl gyda nifer fawr o deuluoedd â phlant, a
- maint a sgôp yr eiddo hapchwarae dan sylw.

7.1.4 **Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau'i hun**. Os yw ymgeisydd, felly, yn medru dangos yn effeithiol sut y gall ddiwallu pryderon ynglŷn â'r amcanion trwyddedu, caiff hyn ei ystyried.

7.1.5 Ble nad oes **sylwadau perthnasol wedi dod i law** oddi wrth Awdurdodau Cyfrifol neu Bartïon â Diddordeb ynglŷn â chais, bydd y drwydded yn cael ei rhoi, cyn belled â bod cais wedi ei wneud yn unol â gofynion y Ddeddf. Er mwyn i sylwadau fod yn berthnasol, rhaid iddynt:

- fod yn gysylltiedig â hyrwyddo un o'r tri amcan trwyddedu;
- gael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb o fewn cyfnod penodol;
- beidio â chael eu tynnu'n ôl; ac
- nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol, yn wamal nac yn flinderus.

7.1.6 Pan dderbynnir sylwadau perthnasol ar gais, ac mae'r cais wedi ei wneud yn unol â gofynion y Ddeddf, gellid ystyried unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol eraill wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio.

## 7.2 CYFLAFAREDDU

7.2.1 Pan fo sylwadau perthnasol sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu'n dod i law gan awdurdodau cyfrifol neu berson arall, bydd yr adain drwyddedu'n penderfynu p'un a yw'r sylw'n berthnasol ai peidio.

7.2.2 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n ystyried bod y sylw'n berthnasol, fe allai argymell trefnu **cyfarfod cyflafareddu** er mwyn cael eglurdeb ar y materion sy'n peri pryder.

7.2.3 Ni fydd y broses yn gwrthwneud hawl ymgeisydd neu'r parti â diddordeb i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cyflafareddu.

7.2.4 Os na fydd y broses anffurfiol hon yn llwyddiannus, cynhelir gwrandawiad gerbron y pwyllgor neu'r is-bwyllgor trwyddedu. Rhoddir gwybod i'r holl bartïon perthnasol.

7.2.5 Bydd y pwyllgor trwyddedu neu'r is-bwyllgor trwyddedu'n gwneud penderfyniad ar y cais a bydd manylion y penderfyniad hwnnw'n cael eu cylchredeg i'r holl bartïon dan sylw.

# 7.3 AMODAU

7.3.1 Mae'r Ddeddf a'r rheoliadau yn darparu ar gyfer amodau arbennig a ddylai gael eu hatodi at Drwydded Eiddo naill ai fel amodau "**gorfodol**" neu amodau "**diofyn**" conditions.

7.3.2 Mae Adran 169 y Ddeddf yn rhoi grym i awdurdodau trwyddedu i osod amodau diofyn ar drwyddedau eiddo y maent yn eu cyflwyno.

7.3.3 Wrth ystyried unrhyw amodau y dylid eu rhoi ar drwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi ystyriaeth i'r amodau lleol a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag eiddo penodol neu ddosbarth o eiddo, a allai beri angen am amodau.

7.3.4 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n gosod unrhyw amodau oni bai fod ganddo ddisgresiwn i wneud hynny yn sgil sylwadau perthnasol a'i fod wedi'i fodloni mewn gwrandawiad bod angen gosod amodau yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd. Dim ond ar yr adeg honno y bydd yn gosod amodau o'r fath sy'n briodol ac yn gyfatebol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sy'n codi trwy ystyried y sylwadau.

7.3.5 Bydd amodau ar drwyddedau eiddo ddim ond yn ymwneud â hapchwarae. Fe'u hystyrir yn briodol o ystyried yr egwyddorion a ganlyn:

- Rhaid iddynt fod yn gymesur â'r sefyllfa y maent yn ceisio ymdrin â hi;
- Dylent fod yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas i fod yn gyfleuster hapchwarae;
- Dylent fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r eiddo (gan gynnwys y lleoliad ac unrhyw risgiau sydd wedi'u hadnabod yn lleol) a'r math o drwydded y gwnaed cais amdano;
- Dylent fod yn deg ac yn rhesymol berthnasol i faint a math yr eiddo;
- Dylent fod yn rhesymol ym mhob ffordd arall

# 7.4 ADOLYGIADAU

7.4.1 Yn dilyn rhoi trwydded eiddo, mae gan **awdurdod cyfrifol** neu unrhyw **barti â diddordeb** hawl gofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded eiddo am fod mater wedi codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r tri amcan trwyddedu.

7.4.2 Mae'r broses adolygu'n rhoi gwarchodaeth allweddol i'r gymuned ble ceir problemau mewn eiddo sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu.

7.4.3 Ym mhob achos, rhaid i gais am adolygiad ymwneud ag eiddo neu glwb penodol ac mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

7.4.4 Gellir cynnal adolygiad am fod gweithgareddau, gan gynnwys yr hyn a ganlyn, ond nid yn gyfyngedig iddynt, fod yn digwydd yn yr eiddo:

- Defnyddio'r eiddo trwyddedig er mwyn gwerthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu'r arian a enillwyd trwy droseddau'n ymwneud â chyffuriau.
- Defnyddio'r eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tân anghyfreithlon;
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer puteiniaeth neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- Defnyddio eiddo trwyddedig fel pencadlys ar gyfer gweithgareddau troseddol wedi'u trefnu;
- Defnyddio eiddo trwyddedig i drefnu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu gamdriniaeth rywiol;
- Defnyddio'r eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglo;
- Defnyddio eiddo trwyddedig i werthu nwyddau wedi'u dwyn.
- Mae'n rhoi plant a/neu bobl fregus mewn perygl.

7.4.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n gwrthod cais am adolygiad os yw'r ymgeisydd yn methu darparu gwybodaeth a dogfennau i ategu'r honiad nad yw un neu fwy o'r amcanion trwyddedu yn cael eu diwallu, neu os nad yw'r rheswm dros yr adolygiad yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

7.4.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn gwrthod cais am adolygiad os yw'r sail yn wamal;

- 
- os yw'r sail yn ofidus;
- os yw'r sail yn amherthnasol;
- os na fydd y sail yn peri i'r Cyngor ddiddymu neu atal trwydded neu ddileu neu atodi amodau ar y Drwydded Eiddo;
- os yw'r sail yr un fath yn ei grynswth â'r sail a nodwyd mewn cais blaenorol yn ymwneud â'r un eiddo; neu
- fod y sail yr un fath yn ei grynswth â'r sylwadau a wnaed pan ystyriwyd y cais am Drwydded Eiddo.

7.4.7 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer da i bob awdurdod cyfrifol sydd â phryderon am broblemau mewn eiddo roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o'u pryder ac o'r angen am welliannau, a dylent gynghori deiliad y drwydded o'r camau y mae angen iddynt hwythau eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

## DECHRAU ADOLYGIAD GAN YR AWDURDOD TRWYDDEDU

7.4.8 Fe all yr awdurdod trwyddedu hefyd benderfynu drosto ei hun i ymgymryd ag adolygiad.

7.4.9 Cyn defnyddio ei rym i ddechrau adolygiad, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymgeisio i gael trafodaethau cynhyrchiol gyda'r gweithredwyr ynglŷn ag unrhyw bryderon ac fe all ofyn i'r gweithredwr gynnal ei **asesiad risg** ei hun ar ran yr awdurdod trwyddedu ble rhoddir eglurhad ar ba reolaethau y mae wedi eu gosod i liniaru risgiau.

# 8. SAFONAU LLEOL

## 8.1 TRWYDDEDAU EIDDO

8.1.1 Gall Trwyddedau Eiddo awdurdodi darpariaeth o gyfleusterau hapchwarae ar

- Gasinos;
- Eiddo Bingo;
- Eiddo Betio, gan gynnwys Traciau;
- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion; a
- Chanolfannau Adloniant Teulu.

Trwy wahaniaethu rhwng y math o eiddo, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir fod rhaid i weithgaredd hapchwarae ar yr eiddo fod yn gysylltiedig â'r eiddo a ddisgrifir. **Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i eiddo gael ei drwyddedu ar gyfer mwy nag un o'r gweithgareddau uchod**.

8.1.1 Dim ond rhai personau (gan gynnwys cwmnïau a phartneriaethau) sy'n cael gwneud cais am Drwydded Eiddo, sef y sawl:

- Sy'n 18 oed neu'n hŷn, **ac**
- Sy'n meddu ar yr hawl i feddiannu'r eiddo ac
- Sy'n meddu ar Drwydded Gweithredu sy'n rhoi hawl iddo/i ymgymryd â'r gweithgaredd arfaethedig **NEU** sydd wedi gwneud cais am Drwydded Gweithredu er mwyn eu galluogi i redeg y gweithgaredd arfaethedig.

**Ni ellir pennu'r drwydded eiddo hyd nes bydd trwydded gweithredu wedi ei rhoi.**

8.1.2 Eithriad i hyn yw cais am drwydded eiddo sy'n rhoi caniatâd i drac gael ei ddefnyddio ar gyfer betio, gan nad oes angen i'r ymgeiswyr hyn fod yn ddeiliaid trwydded gweithredu os mai dim ond darparu gofod i bobl eraill ddarparu'r betio y maen nhw (ac y mae'r bobl eraill yn ddeiliad trwyddedau gweithredu betio dilys).

8.1.3 Mae’r awdurdod trwyddedu’n annog ymgeiswyr yn gryf i drafod ceisiadau arfaethedig â swyddog trwyddedu a’r awdurdodau cyfrifol yn gynnar a chyn cyflwyno’r cais ei hun. Dylai hyn dynnu sylw at broblemau posib a chynorthwyo i

greu partneriaeth waith dda. Yn ogystal, gall leihau'r angen am wrandawiad yn ddiweddarach yn y broses.

8.1.4 Anogir ymgeiswyr i'w cyfarwyddo eu hunain ag unrhyw bolisïau cynllunio a thrafnidiaeth, strategaethau twristiaeth a diwylliannol, a strategaethau trosedd ac anhrefn lleol sy'n berthnasol gan eu hystyried ble bo'n briodol wrth fynd ati i lunio eu hatodlenni gweithredu.

8.1.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i bob ymgeisydd fanylu ar sut y byddant yn hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu yn eu hatodlenni gweithredu, gan ystyried y math o eiddo dan sylw, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig, y gweithdrefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.

8.1.6 Mae'r awdurdod yn ystyried bod atodlen weithredu benodol sydd wedi'i llunio'n dda yn dangos bod ymgeisydd yn deall ac yn barod i gwrdd â chyfrifoldebau deiliad trwydded yn unol â'r Ddeddf.

8.1.7 Mae'r awdurdod yn ystyried bod atodlen weithredu wag neu un sydd heb fawr o gynnwys yn rhoi'r argraff nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfrifoldebau deiliad trwydded.

8.1.9 Nid yw galw heb ei ddiwallu yn faen prawf fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo o dan Ddeddf Hapchwarae 2005.

## CASINOS

8.1.10 Penderfynwyd 23 Ionawr 2007 (a gweithredwyd 1 Chwefror 2007), na chaniateir ceisiadau am gasinos.

8.1.11 Petai'r awdurdod trwyddedu'n dewis adolygu'r polisi hwn, byddai hynny'n benderfyniad gan y Cyngor Llawn yn dilyn trafodaeth ystyrlon a byddai'r rhesymau dros ddod at y penderfyniad yn cael eu cyflwyno.

## EIDDO BINGO

8.1.12 Nid oes diffiniad statudol ar gyfer Bingo yn y Ddeddf; serch hynny, deellir, yn gyffredinol bod dau fath o bingo:

- Bingo arian parod, ble mae'r arian betio yn ffurfio'r gwobrau a enillir
- Bingo gwobr, ble enillir amrywiaeth o wobrau nad ydynt yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r arian betio a delir.

8.1.13 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn rhoi amodau gorfodol a diofyn ar bob trwydded Eiddo Bingo.

## EIDDO BETIO;

8.1.14 Yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am roi a monitro trwyddedau eiddo pob eiddo betio.

8.1.15 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn rhoi amodau gorfodol a diofyn ar bob trwydded Eiddo Betio.

## TRACIAU

8.1.16 Nid yw'r Ddeddf yn rhestru eiddo sy'n cael eu hadnabod yn swyddogol fel 'traciau' ond mae nifer o lefydd ble mae digwyddiadau chwaraeon yn digwydd neu yn medru digwydd, ac a fuasent, yn unol â hyn, yn medru gwneud lle i ddarparu cyfleusterau betio. Mae enghreifftiau o draciau yn cynnwys

- Cae rasio ceffylau
- Trac milgwn
- Ras ceffylau o fan i fan
- Meysydd pêl droed, criced a rygbi
- Cwrs Golff
- Llefydd ble cynhelir twrnameintiau dartiau, bowls neu snwcer.

8.1.17 Yr awdurdod trwyddedu fydd yn pennu beth sy'n ddigwyddiad chwaraean neu ras fesul achos.

## CANOLFANNAU HAPCHWARAE I OEDOLION

8.1.18 Rhaid i ymgeiswyr Trwydded Eiddo Canolfan Hapchwarae i Oedolion fod yn ddeiliad 'Trwydded Gweithredu Peiriannau Hapchwarae Cyffredinol (Canolfan Hapchwarae i Oedolion)' y Comisiwn Hapchwarae cyn bod modd pennu trwydded.

8.1.19 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn rhoi amodau gorfodol ar bob trwydded Eiddo Canolfannau o'r Fath.

## CANOLFANNAU ADLONIANT TEULU

8.1.20 Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer Trwydded Eiddo Canolfan Adloniant Teulu fod yn ddeiliad 'Trwydded Gweithredu Peiriannau Hapchwarae Cyffredinol (Canolfan Adloniant Teulu)' y Comisiwn Hapchwarae cyn bod modd pennu trwydded.

8.1.21 Yn aml, lleolir Canolfannau Adloniant Teulu Trwyddedig mewn cyrchfannau gwyliau glan y môr, mewn meysydd awyr ac mewn gorsafoedd seibiant ar draffyrdd, ac maent yn rhoi darpariaeth i deuluoedd, gan gynnwys plant ar eu pennau eu hunain a phobl ifanc. Mae hawl ganddynt i ddarparu peiriannau hapchwarae categori C a D.

8.1.22 Nid oes hawl gan blant a phobl ifanc i ddefnyddio peiriannau categori C ac mae'n ofynnol bod gwahanu eglur yn digwydd rhwng y mathau o beiriannau fel nad oes modd i bobl o dan 18 fynd atynt.

8.1.23 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau i amddiffyn plant a phobl ifanc a gynigir gan yr ymgeisydd wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau Eiddo o'r fath.

8.1.24 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn rhoi amodau gorfodol ar bob trwydded Eiddo o'r fath.

## 8.2 RHYBUDDION

### RHYBUDDION DEFNYDD DROS DRO

8.2.1 Mae rhybuddion defnydd dros dro yn rhoi caniatâd i eiddo gael ei ddefnyddio ar gyfer hapchwarae ble nad oes trwydded eiddo ond ble mae gweithredwr eisiau defnyddio eiddo dros dro er mwyn darparu cyfleusterau hapchwarae. Gallai eiddo sy'n addas ar gyfer rhybudd defnydd dros dro, yn ôl y Comisiwn Hapchwarae, gynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a chyrchfannau chwaraeon.

8.2.2 Ni all awdurdod trwyddedu roi rhybudd defnydd dros dro oni bai fod gan y person neu'r cwmni drwydded weithredu berthnasol, h.y. trwydded weithredu casino nid o bell.

8.2.3 Mae nifer o gyfyngiadau statudol parthed rhybuddion defnydd dros dro.

8.2.4 O ystyried a yw lleoliad yn cyfrif fel "set o eiddo", bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried, ymysg pethau eraill, perchnogaeth/daliad a rheolaeth dros yr eiddo.

8.2.5 Disgwylir i'r awdurdod trwyddedu hwn wrthwynebu rhybuddion ble ymddengys mai canlyniad rhoi'r drwydded fyddai caniatáu hapchwarae yn rheolaidd mewn lle y gellir ei ddisgrifio fel un set o eiddo, fel awgrymir yng nghanllaw'r comisiwn hapchwarae i'r awdurdodau trwyddedu.

### RHYBUDDION DEFNYDD ACHLYSUROL

8.2.6 Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr awdurdod trwyddedu parthed y rhybuddion hyn, ar wahân i sicrhau nad yw'r cyfnod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm o wyth niwrnod bob blwyddyn calendr. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn, fodd bynnag, yn ystyried diffiniad 'trac' a ph'un a oes caniatâd gan yr ymgeisydd i fanteisio ar y rhybudd ei hun.

# 8.3 HAWLENNI

8.3.1 Dyluniwyd hawlenni i fod yn ffordd lai llawdrwm o fynd i'r afael â hapchwarae atodol lefel isel. Mae'r hawlenni'n rheoleiddio hapchwarae a'r defnydd o beiriannau gemau hapchwarae mewn eiddo penodol.

8.3.2 Yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am roi

- Hawlen Peiriannau Hapchwarae Canolfan Adloniant Teulu;
- Hawlenni Hapchwarae i Glybiau a Hawlenni Peiriannau Hapchwarae i Glybiau;
- Hawlenni Peiriannau Hapchwarae i eiddo â thrwydded Alcohol;
- Hawlenni Hapchwarae am Wobrau.

8.3.3 Yr awdurdod trwyddedu fydd yn rhoi neu'n gwrthod cais am hawlen. **Ni ellir rhoi amodau ar hawlen.**

8.3.4 Yn ogystal, yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am dderbyn hysbysiadau gan ddeiliaid trwyddedau alcohol yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 eu bod yn bwriadu defnyddio eu hawl awtomatig i gael dau beiriant hapchwarae ar eu heiddo.

8.3.5 Gweler **Atodiad C** am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r categorïau o beiriannau hapchwarae sy'n cael eu caniatáu o ganlyniad i hawlen a gwybodaeth am arian betio a chyfyngiadau ar wobrau.

8.3.6 Wrth bennu ceisiadau am hawlenni, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried unrhyw gollfarnau ar yr ymgeisydd sy'n golygu eu bod yn anaddas i redeg yr eiddo, yn ogystal ag addasrwydd yr eiddo o safbwynt ei leoliad a materion yn ymwneud ag anhrefn.

## HAWLEN PEIRIANNAU HAPCHWARAE CANOLFAN ADLONIANT TEULU

8.3.7 Dim ond peiriannau categori C y mae Canolfannau Adloniant Teulu heb Drwydded yn medru eu darparu ar drwydded peiriant hapchwarae. Ceir darparu cynifer o beiriannau categori D ag y dymunir.

8.3.8 Dim ond person sy'n ddeiliad, neu sy'n bwriadu bod yn ddeiliad, eiddo y bwriedir ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teulu ddidrwydded, sy'n cael gwneud cais am Drwydded Eiddo, ac, os mai unigolyn yw'r ymgeisydd, ei fod ef/hi'n 18 oed neu'n hŷn.

8.3.9 Dim ond os yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon y bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teulu ddi-drwydded, ac os yw prif swyddog yr heddlu wedi ymgynghori ar y cais, y gall hawlen gael ei rhoi.

8.3.10 Nid oes ffurflen gais benodedig ar gyfer yr hawlen hon, ond mae'r awdurdod trwyddedu wedi creu **ffurflen gais leol** i'r perwyl hwn. Rhaid cyflwyno cynllun ar gyfer y Ganolfan Adloniant Teulu ddi-drwydded gyda phob cais.

## HAWLENNI HAPCHWARAE I GLYBIAU A HAWLENNI PEIRIANNAU HAPCHWARAE I GLYBIAU

8.3.11 Fe allai'r awdurdod trwyddedu roi hawlenni hapchwarae i glybiau i glybiau aelodau a sefydliadau lles y glowyr (ond nid i glybiau masnachol) sy'n rhoi caniatâd iddynt ddarparu peiriannau hapchwarae, hapchwarae siawns gyfartal a gemau siawns, fel y'u pennwyd yn y rheoliadau.

8.3.12 Os nad yw clwb aelodau neu sefydliad lles y glöwyr yn dymuno cael yr ystod lawn o gyfleusterau sy'n cael eu caniatáu trwy hawlen hapchwarae i glwb, fe allant wneud cais am drwydded peiriant hapchwarae i glwb gan ddefnyddio'r ffurflen benodedig.

8.3.13 Mae'n ofynnol i ddeiliaid hawlenni hapchwarae i glybiau a hawlenni peiriannau hapchwarae i glybiau gydymffurfio a'r cod ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae ar leoliad a gweithrediad y peiriannau.

## HAWLENNI PEIRIANNAU HAPCHWARAE I EIDDO Â THRWYDDED ALCOHOL

8.3.14 Fe allai'r awdurdod trwyddedu roi hawlen peiriant hapchwarae i ddeiliaid trwyddedau alcohol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 sy'n rhoi caniatâd i unrhyw nifer o beiriannau Categori C neu D gael eu gosod mewn eiddo trwyddedig.

8.3.15 Rhaid i'r cais gael ei gyflwyno i ddeiliad y drwydded eiddo alcohol a roddwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

8.3.16 Gall yr awdurdod trwyddedu amrywio nifer a chategori'r peiriannau hapchwarae a ganiateir trwy'r hawlen os yw'n ystyried bod rhaid hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

8.3.17 Mae'n ofynnol i ddeiliaid hawlenni peiriannau hapchwarae mewn eiddo trwyddedig gydymffurfio a'r cod ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae ar leoliad a gweithrediad y peiriannau.

8.3.18 Nid oes ffurflen gais penodedig ar gyfer yr hawlen hon, ond mae'r awdurdod trwyddedu wedi creu **ffurflen gais leol** i'r perwyl hwn.

## HAWLENNI GEMAU AM WOBRAU

8.3.19 Fe allai'r awdurdod trwyddedu roi hawlenni hapchwarae am wobrau sy'n awdurdodi'r ddarpariaeth o gyfleusterau hapchwarae am wobrau ar eiddo penodedig.

8.3.20 Rhaid i'r cais gael ei wneud gan berson sy'n ddeiliad neu sy'n bwriadu bod yn ddeiliad eiddo; ac, os mai unigolyn yw'r ymgeisydd, rhaid iddo fod yn 18 oed neu'n hŷn.

8.3.21 Gofynnir i ymgeiswyr nodi'r math o hapchwarae y maent yn bwriadu ei gynnig yn eu cais.

8.3.22 Nid oes ffurflen gais benodedig ar gyfer yr hawlen hon, ond mae'r awdurod trwyddedu wedi creu **ffurflen gais leol** i'r perwyl hwn.

## 8.4 COFRESTRIADAU

8.4.1 Mae'r Ddeddf yn nodi mai 'awdurdodau lleol' sy'n gyfrifol am gofrestru cymdeithasau i redeg **Loterïau Cymdeithasau Bychain**, yn hytrach nag awdurdodau trwyddedu. Er mwyn cael cysondeb, cyfeirir at Gyngor Sir Ddinbych, sef yr awdurdod lleol a ddiffinnir o dan Adran 25 y Ddeddf, fel yr awdurdod trwyddedu yn y ddogfen hon.

8.4.2 Rhaid i geisiadau ar gyfer cofrestriadau loterïau cymdeithasau bychain gael eu gwneud trwy'r ffurflen benodol a dylid cynnwys y ffi cofrestru angenrheidiol a'r holl ddogfennau sydd eu hangen ar yr awdurdod trwyddedu.

8.4.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu copi o'u hamodau a'u telerau a'u cyfansoddiad er mwyn pennu nad cymdeithasau masnachol mohonynt.

## 8.5 ASESIADAU RISG LLEOL

8.5.1 Mae **'Codau Ymarfer Amodau Trwyddedu'** y Comisiwn Hapchwarae yn ffurfioli'r angen i weithredwyr ystyried peryglon lleol.

8.5.2 Mae'n ofynnol o dan god Cyfrifoldeb Cymdeithasol 10.1.1 i bob deiliad trwydded eiddo asesu'r peryglon lleol i'r amcanion trwyddedu sy'n codi yn sgil cael cyfleusterau hapchwarae ym mhob un o'u heiddo, a bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r peryglon hynny. Wrth ymgymryd ag asesiad risg, rhaid i ddeiliaid trwydded ystyried y materion a adnabuwyd yn y datganiad polisi hwn.

8.5.3 Rhaid cynnal asesiad risg lleol wrth wneud cais am drwydded eiddo newydd a rhaid iddo gael ei ddiweddaru

- Wrth wneud cais am amrywio trwydded eiddo;
- Wrth ystyried unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn risgiau lleol;
- Ble ceir newidiadau arwyddocaol mewn eiddo trwyddedig a allai amharu ar eu gallu i liniaru peryglon lleol;

8.5.4 Bydd yr awdurdod trwyddedig yn disgwyl i bob asesiad risg ystyried y penawdau eang a ganlyn:

- Cyfeirio at unrhyw risgiau lleol penodol
- Sut mae'r gweithredwr yn bwriadu lliniaru'r risgiau hyn
- Sut mae'r gweithredwr yn monitro'r risgiau

8.5.5 Mae'r **risgiau lleol** a adnabuwyd gan yr awdurdod trwyddedu yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:

- Agosrwydd yr eiddo at sefydliadau sensitif megis ysgolion, canolfannau oedolion bregus, neu at ardaloedd preswyl gyda nifer fawr o deuluoedd â phlant.
- Natur y gweithgareddau hapchwarae a'r categorïau o beiriannau hapchwarae sydd ar gael yn yr eiddo.
- Unrhyw gyfyngiadau oedran a gofynion gwahanu yn yr eiddo sy'n angenrheidiol i amddiffyn plant a phobl ifanc.
- Faint o bobl fregus sydd yn yr ardal gerllaw'r eiddo.

# 9. CWYNION YN ERBYN EIDDO TRWYDDEDIG

9.0.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu ymchwilio i gwynion yn erbyn eiddo trwyddedig parthed materion sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i leisio'r gŵyn yn uniongyrchol gyda'r deiliad trwydded neu'r busnes dan sylw er mwyn dod i gytundeb yn lleol.

9.0.2 Ble mae parti â diddordeb wedi gwneud cŵyn am eiddo trwyddedig, neu gais dilys am adolygu trwydded, gall y Cyngor yn gyntaf argymell cyfarfod cyflafareddu i fynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder a chael eglurdeb ar hyn.

9.0.3 Ni fydd y broses yn gwrthwneud hawl unrhyw barti â diddordeb neu unrhyw ddeiliad trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cyflafareddu.

9.0.4 Rhoddir ystyriaeth deg i bob cŵyn ac eithrio'r rhai y'u hystyrir yn wamal, yn flinderus neu'n ailadroddus.

# 10. GWYBODAETH BELLACH

## 10.1 PEIRIANNAU HAPCHWARAE

10.1.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n nodi fod y term "Peiriant Hapchwarae" yn derm ar bob peiriant y mae pobl yn ei ddefnyddio i hapchwarae, ac mae'r term wedi ei gadw yn y Ddeddf ddim ond am ei fod yn un sy'n hawdd i'w ddeall.

10.1.2 Mae diffiniad "peiriannau hapchwarae" yn ehangach yn Neddf Hapchwarae 2005 nag yn y deddfwriaethau hapchwarae blaenorol ac mae'n cynnwys bob math o weithgareddau hapchwarae a all ddigwydd ar beiriant, gan gynnwys betio ar ddigwyddiadau rhithwir.

10.1.3 Dylid nodi, fodd bynnag, bod gwahaniaeth yn bodoli o hyd rhwng peiriannau sgìl a pheiriannau hapchwarae; mae eithriadau pwysig hefyd yn parhau ar gyfer cyfarpar penodol nad ystyrid hwy'n beiriannau hapchwarae, hyd yn oed pan ellir hapchwarae arnynt, er enghraifft, cyfrifiadur cartref personol.

10.1.4 Er mwyn gosod peiriannau hapchwarae mewn eiddo, rhaid cael awdurdodiad fel arfer. Mae hyn fel arfer ar ffurf

- trwydded gweithredu gan y Comisiwn **a** thrwydded eiddo hapchwarae gan yr awdurdod trwyddedu;
- trwydded eiddo alcohol, neu
- hawlen peiriant hapchwarae.

10.1.5 O safbwynt yr awdurdod trwyddedu, bydd yn cysylltu â'r Comisiwn am arweiniad parthed gwneuthuriad, cyflenwi, mewnosod, cynnal a chadw, neu drwsio peiriannau hapchwarae, neu'r modd y maent yn gweithredu.

10.1.6 Mae rheoliadau'n diffinio pedwar categori o beiriant hapchwarae: categorïau A, B, C a D, gyda chategori B wedi ei rannu'n bedwar is-gategori pellach. Mae'r nifer fwyaf o beiriannau sy'n cael caniatâd yn amrywio yn ôl y math o eiddo.

10.1.7 Nid oes isafswm oedran i chwaraewyr peiriannau hapchwarae Categori D, ond rhaid i chwaraewyr peiriannau hapchwarae categori A, B a C fod yn 18 oed neu'n hŷn.

10.1.8 Gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth ynghylch categorïau a hawliadau peiriannau.

## 10.2 Y GOFRESTR TRWYDDEDU

10.2.1 O dan y Ddeddf, mae gofyn i bob awdurdod trwyddedu gadw cofrestr trwyddedu sy'n cynnwys:

- cofnod o bob trwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb a thrwydded bersonol a roddwyd ganddo,
- cofnod o bob rhybudd digwyddiad dros dro a ddaeth i law,
- cofnod o bob cais arall a gyflwynwyd iddo, rhybuddion a roddwyd iddo ac unrhyw wrthrybudd a roddwyd ganddo, ac
- unrhyw wybodaeth arall o'r fath a bennir gan reoliadau.

12.2 Bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr trwyddedu ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn ystod oriau swyddfa, yn rhad ac am ddim, a gellir cael copi o'r wybodaeth honno ar gais (ffi'n daladwy).

12.3 Mae crynodeb o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr trwyddedu ar gael ar y we ar: **www.sirddinbych.gov.uk**.

12.4 Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gweld y gofrestr trwyddedu drostynt eu hunain gysylltu â'r awdurdod trwyddedu ar e-bost Trwyddedu@sirddinbych.gov.uk neu dros y ffôn 01824 706342 i drefnu apwyntiad.

12.5 I sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr yn cael ei chyflwyno ar ffurf briodol, bydd gofyn i unrhyw berson sy'n dymuno gweld y gofrestr drostynt eu hunain nodi pa ran o'r gofrestr y maent yn dymuno ei gweld yn ystod yr apwyntiad.

## 10.3 CRONFA DDATA O GOFNODION EIDDO

10.3.1 Mae cronfa ddata o drwyddedau eiddo ar gael ar wefan y Comisiwn ac mae'n cynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau trwyddedu. Cyfeiriad gwe'r Comisiwn yw: **www.gamblingcommission.gov.uk** .

## ATODIAD A: RHESTR TERMAU

**Canolfan Hapchwarae i Oedolion:** eiddo hapchwarae trwyddedig sydd â'r hawl i ddarparu peiriannau hapchwarae. Dim ond oedolion (pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn) sy'n cael mynd i mewn i Ganolfannau Hapchwarae i Oedolion.

**Eiddo Betio:** eiddo hapchwarae trwyddedig sydd â'r hawl i ddarparu cyfleusterau betio a pheiriannau hapchwarae. Dim ond oedolion (pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn) sy'n cael mynd i mewn i Ganolfannau Betio oni bai fod yr eiddo ar drac.

**Bingo:** mae dau fath o fingo

> **Bingo Trosiant Uchel -** Bingo ble mae cyfanswm yr arian betio a'r gwobrwyon o fewn unrhyw gyfnod o saith niwrnod yn fwy na £2000. Dim ond mewn casinos a neuaddau bingo y caiff bingo trosiant uchel ddigwydd.
> **Bingo Trosiant Isel -** (fe'i disgrifir weithiau fel bingo heb drosiant uchel) Bingo ble mae cyfanswm yr arian betio a'r gwobrwyon o fewn unrhyw gyfnod o saith niwrnod yn llai na £2000. Gall bingo trosiant isel ddigwydd mewn tafarndai a chlybiau, ac mewn eiddo sydd â Hawlen Hapchwarae â Gwobr neu Hawlen Peiriant Hapchwarae Canolfan Adloniant Teulu Ddi-drwydded.

**Eiddo Bingo:** eiddo hapchwarae trwyddedig sydd â'r hawl i ddarparu bingo trosiant uchel a pheiriannau hapchwarae.

**Casino:** mae tri math o gasino sy'n medru bodoli yng Nghymru a Lloegr: mawr, bach neu "fach iawn" (casinos oedd yn bodoli o dan yr hen gyfraith ac sydd wedi parhau â'u trwydded o dan y gyfraith newydd). Mae'r gwahaniaethau yn seiliedig ar faint cyffredinol a nifer y peiriannau a'r byrddau hapchwarae y gellir eu darparu. Caiff casinos ddarparu gemau casino (gemau sydd ddim yn cyfrif fel hapchwarae siawns cyfartal ac sydd o bosib yn ymwneud â chwarae yn erbyn banc) a bingo yn ogystal â pheiriannau hapchwarae.

**Plentyn:** Er dibenion Deddf Hapchwarae 2005, unrhyw un o dan 16 oed.

**Clwb:** mae Deddf 2005 yn cydnabod dau fath o glwb: **clwb i aelodau** (o leiaf 25 aelod ac wedi'i sefydlu at ddibenion gwahanol i hapchwarae, ac eithrio clybiau *bridge* neu chwist, gan gynnwys Sefydliadau Lles y Glöwyr); a **chlybiau masnachol**. Gall hapchwarae siawns cyfartal ddigwydd heb unrhyw hawlen bellach cyhyd â bod yr arian betio a'r gwobrau ddim yn fwy na'r cyfyngiadau. Yn ogystal, gellir cael bingo trosiant isel yno, ac os yw hynny mewn clwb *bridge* neu chwist, gellir chwarae *bridge* neu chwist hefyd.

**Hawlenni Clybiau Hapchwarae:** hawlen i alluogi i'r eiddo ddarparu peiriannau hapchwarae (tri pheiriant o Gategori B3A, B4, C neu D), gemau siawns cyfartal a gemau hap (yn gyfyngedig i *pontoon* a *chemin de fer*).

**Hawlen Peiriant i Glwb:** hawlen i alluogi'r eiddo i ddarparu peiriannau hapchwarae (tri pheiriant o Gategori B3A, B4, C neu D).

**Amodau:** mae dau fath o amod

1. **Amodau Diofyn** - mae'r rhain wedi eu rhagnodi mewn rheolaethau ac fe fyddant yn cael eu hatodi ar bob dosbarth o drwydded eiddo, oni bai fod yr awdurdod trwyddedu wedi gwneud eithriad.

2. **Amodau Gorfodol** - mae'r rhain yn amodau a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mae rhai wedi eu nodi yn y Ddeddf a bydd rhai wedi eu rhagnodi gan reolaethau) fydd yn cael eu hatodi'n awtomatig i fath arbennig o drwydded eiddo. Ni fydd gan yr awdurdod trwyddedu unrhyw hawl i ddewis newid neu ddiddymu'r amodau hyn.

**Peiriant Craen sy'n Cipio:** peiriant sy'n rhoi gwobr sydd ddim yn ariannol. Mae pob gwobr y gellir ei hennill yn wrthrych unigol (megis tegan meddal) sy'n cael ei ennill wrth i berson lwyddo i wahanu un neu fwy o wrthrychau oddi wrth ei gilydd gyda pheiriant.

**Hapchwarae Siawns Cyfartal:** gemau nad sy'n ymwneud â chwarae neu roi arian betio yn erbyn banc a ble mae gan bawb sy'n cymryd rhan gyfle cyfartal.

**Hapchwarae wedi'i eithrio:** gall mathau o hapchwarae lefel isel penodedig ddigwydd ar eiddo preifat, gweithleoedd, tafarndai a chlybiau heb unrhyw ofynion am drwyddedu neu gofrestru.

**Loterïau wedi'u heithrio:** Gellir cynnal mathau penodol o loterïau heb drwydded gan y Comisiwn Hapchwarae, na chofrestriad gyda'r awdurdod lleol. Mae'r rhain yn Loterïau Achlysurol heb fod yn Fasnachol, Loterïau Preifat a Loterïau Cwsmer.

**Canolfan Adloniant Teulu:** mae dau fath o Ganolfannau Adloniant Teulu: trwyddedig a heb eu trwyddedu. Yn y ddau achos, mae hawl gan blant a phobl ifanc gael mynediad i'r eiddo heb oedolion a defnyddio peiriannau categori D. Mae hawl gan Ganolfannau Adloniant Teulu Trwyddedig i ddarparu peiriannau categori C a D, ond dim ond pobl dros 18 oed sy'n cael defnyddio'r peiriannau categori C. Dim ond peiriannau categori D y mae gan Ganolfan Adloniant Teulu heb Drwydded hawl i'w darparu.

**Betio Tebygolrwydd Penodedig:** os yw hapchwaraewr yn medru pennu beth fydd adenillion ar fet pan roir y fet, (ac nad yw'r gweithgaredd yn cyfrif fel 'hapchware'), yna mae'n debyg mai betio ar debygolrwydd penodedig yw hyn.

**Terfynfa Betio Tebygolrwydd Penodedig (FOBTs):** Mae FOBTs yn fathau ar beiriannau hapchwarae sydd fel arfer ar gael mewn siopau betio trwyddedig. Mae gan FOBTs sgriniau cyffwrdd ac maent yn edrych yn debyg i beiriannau cwis sydd ar gael yn aml mewn tafarndai a chlybiau. Maent yn cynnig nifer o gemau, a rwlét yw'r un mwyaf poblogaidd.

**Hapchwarae:** chwarae gêm hap i ennill gwobr. Mae hyn yn cynnwys gemau o siawns llwyr (neu lwc), gemau ac iddynt elfen gyfunol o sgìl a hap, a gemau ble mae "lefel uchel o sgìl" yn medru diddymu'r elfen o hap. Caiff chwaraeon eu heithrio o'r diffiniad Gemau Hap.

**Peiriant Hapchwarae:** peiriant a ddefnyddir i hapchwarae. Fe'i rhennir yn wyth categori, (A, B1, B2, B3A, B3, B4, C & D) yn dibynnu ar uchafswm yr arian betio a'r gwobrau uchaf. Gellir defnyddio gwahanol fathau o beiriannau mewn mathau gwahanol o eiddo trwyddedig ac o dan drwyddedau gwahanol.

**Canllaw i Awdurdodau Trwyddedu:** canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae.

**Loterïau Achlysurol heb fod yn Fasnachol:** gweler Loterïau wedi'u Heithrio uchod.

**Loteri Fawr:** ble mae cyfanswm gwerth y tocynnau mewn un loteri yn fwy nag £20,000 neu £250,000 mewn loterïau unigol dros un flwyddyn galendr. Mae'n rhaid i'r math hwn o loteri gael Trwydded Gweithredu gan y Comisiwn Hapchwarae.

**Hawlenni Peiriannau Hapchwarae i eiddo â thrwydded:** mae hwn yn galluogi tafarndai i gadw mwy na dau beiriant hapchwarae, ar yr amod mai prif ddiben yr eiddo yw bod yn dafarn, yn hytrach na Chanolfan Adloniant gyda bar.

**Yr Awdurdod Trwyddedu:** yr ardal, y fwrdeistref neu'r awdurdod unedig sy'n gyfrifol am drwyddedu hapchwarae a gweithgareddau eraill yn yr ardal.

**Amcanion Trwyddedu:** mae tri amcan

- Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- Sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored; ac
- Amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchware.

**Loteri:** mae Deddf 2005 yn cydnabod dau fath o loteri, loteri syml neu loteri gymhleth. Yn y ddau achos, mae chwaraewyr yn talu i gymryd rhan a rhoddir gwobrau. Mewn loteri syml, mae dyraniad y gwobrau yn digwydd ar hap llwyr, ond mewn loteri gymhleth, fe ellir gosod camau pellach nad sy'n ddibynnol ar hap. Mae rhai loterïau wedi eu heithrio o reoleiddio (gweler uchod).

**Rhybuddion Defnydd Achlysurol :** mae hwn yn rhybudd y gellir ei roi dim ond ar drac (gweler isod) sy'n caniatáu betio ar drac heb fod angen Trwydded Eiddo.

**Gemau am Wobrau:** sef gemau nad yw natur na maint y gwobrau yn cael eu pennu gan y nifer o chwaraewyr neu arian betio, e.e. bingo gyda gwobrau sydd ddim yn ariannol.

**Hawlen Gemau am Wobrau:** hawlen a roddir gan yr Awdurdod Trwyddedu sy'n caniatáu hapchwarae.

**Tafarn:** sef eiddo a chanddo drwydded eiddo i werthu alcohol i'w gymryd ar yr eiddo mewn bar ble gweinir alcohol i gwsmeriaid, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. Gall tafarndai gadw dau beiriant hapchwarae categori C neu D. Os oes gan dafarn Hawlen Peiriant Hapchwarae i Eiddo Trwyddedig (gweler uchod) fe all gadw mwy o beiriannau hapchwarae.

**Asesiadau risg:** Mae'n ofynnol o dan gôd Cyfrifoldeb Cymdeithasol 10.1.1 i weithredwyr asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu sy'n codi yn sgil cael cyfleusterau hapchwarae yn eu heiddo, a bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny.

**Sylwadau perthnasol:** sef sylwadau a wnaed gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb o fewn y cyfnod penodedig, sy'n ymwneud â hyrwyddo un o'r tri amcan trwyddedu, sydd heb eu diddymu; ac, ym marn yr awdurdod trwyddedu, sydd ddim yn wamal nac yn ofidus.

**Awdurdod cyfrifol:** sef, cyrff cyhoeddus y mae’n rhaid eu hysbysu o geisiadau ac y mae ganddynt yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys

- awdurdod trwyddedu'r ardal ble mae'r eiddo, neu ran ohono, wedi’i leoli,
- y Comisiwn Hapchwarae,
- prif swyddog yr heddlu neu brif gwnstabl yr ardal ble mae'r eiddo, neu ran ohono, wedi ei leoli,
- y gwasanaeth tân ac achub ar gyfer yr un ardal,
- awdurdod cynllunio lleol yr ardal ble mae'r eiddo, neu ran ohono, wedi ei leoli,
- yr awdurdod perthnasol sy'n gweithredu mewn perthynas â llygredd yr amgylchedd neu niwed i iechyd pobl yr ardal ble mae'r eiddo, neu ran ohono, wedi ei leoli,
- corff, sydd wedi ei benodi gan yr awdurdod trwyddedu, i fod yn gymwys i roi cyngor am amddiffyn plant rhag niwed,
- Cyllid a Thollau EM
- Unrhyw berson arall a bennir mewn rheolaethau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Adolygu:** yn dilyn rhoi trwydded eiddo, fe allai awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded am fod mater wedi codi yn yr eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r tri amcan trwyddedu.

**Peiriant Sgiliau gyda Gwobrau:** Peiriant ble mae'r gallu i ennill gwobr yn cael ei bennu gan sgìl y chwaraewr yn unig ac nid oes elfen o siawns. Ni chaiff y rhain eu rheoleiddio.

**Loterïau Cymdeithasau Bychain:** mae'r rhain ar gyfer cymdeithasau sydd ddim yn fasnachol (cymdeithas a sefydlwyd ac sy'n cael ei rhedeg er dibenion elusennol; at ddiben galluogi cyfranogaeth mewn, neu er cefnogi, athletau chwaraeon neu weithgaredd diwylliannol; neu ar gyfer unrhyw ddiben arall nad sy'n fasnachol, ac eithrio ar gyfer elw personol) sy'n gorfod cofrestru eu loterïau gyda'r awdurdod lleol.

**Rhybudd Defnydd Dros Dro:** rhybudd sy'n caniatáu mathau cyfyngedig o hapchwarae am gyfnod cyfyngedig mewn eiddo nad sy'n meddu ar drwydded eiddo.

**Trac:** safle ble mae rasys neu ddigwyddiadau chwaraeon eraill yn cael eu cynnal e.e. rasio ceffylau, rasio cŵn, athletau, pêl droed, rasio ceir ac ati.

**Ffair Deithiol:** ffair sy'n 'gyfan gwbl neu gan fwyaf' yn darparu adloniant ac mae'n rhaid iddi fod ar safle sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ffeiriau am ddim mwy na 27 diwrnod bob blwyddyn calendr. Caiff ffeiriau ddarparu hapchwarae am wobrau a pheiriannau hapchwarae categori D.

**Person Ifanc:** at ddibenion Deddf Hapchwarae 2005, unrhyw un sydd ddim yn blentyn ond sy'n iau na 18.

## ATODIAD B: DIRPRWYO GWNEUD PENDERFYNIADAU

| materion sydd angen ymdriniaeth | Y Cyngor Llawn | Pwyllgor Trwyddedu neu’r Is-bwyllgor y | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| Cymeradwyaeth derfynol datganiad polisi'r Awdurdod Trwyddedu | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod ffi<br><br>(Pan fo hynny’n briodol) | | X<br>(os y'i dirprwyir gan y cyngor llawn) | |
| Cais am Drwyddedau Eiddo | | X<br>Ble mae datganiadau wedi eu derbyn a heb eu tynnu yn ôl | X<br>Ble na dderbyniwyd sylwadau/sylwadau wedi eu tynnu'n ôl |
| Cais am wyriad i drwydded | | X<br>Ble mae datganiadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu yn ôl | X<br>Ble na dderbyniwyd sylwadau/sylwadau wedi eu tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | X<br>Ble mae sylwadau wedi'u derbyn gan y Comisiwn neu'r awdurdod cyfrifol | X<br>Ble nad oes sylwadau wedi'u derbyn gan y Comisiwn na'r awdurdod cyfrifol |
| Cais am ddatganiad dros dro | | X<br>Ble mae datganiadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu yn ôl | X<br>Ble na dderbyniwyd sylwadau/sylwadau wedi eu tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni hapchwarae i glwb/peiriannau hapchwarae i glwb | | X<br>Ble mae gwrthwynebiadau wedi'u gwneud a heb eu tynnu yn ôl | X<br>Ble na dderbyniwyd gwrthwynebiadau / gwrthwynebiadau wedi eu tynnu'n ôl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diddymu hawlenni hapchwarae i glwb/peiriannau hapchwarae i glwb | | **X** | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | **X** |
| Diddymu Hawlenni Peiriannau Hapchwarae i eiddo trwyddedig | | | **X** |
| Rhybudd Ystyriaeth o Ddefnydd Dros Dro | | | **X** |
| Penderfyniad i roi gwrth rybudd i Rybudd Defnydd Dros Dro. | | **X** | |

**X** dangos y lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau

# ATODIAD C: CRYNODEB O BEIRIANNAU HAPCHWARAE

## CRYNODEB O'R DDARPARIAETH PEIRIANNAU YN ÔL EIDDO

| Math o Eiddo | A | B1 | B2 | B3 | B4 | C | D |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Casino mawr** (cyfradd peiriant/bwrdd o 5-1 i'r mwyafswm) | | Uchafswm o 150 peiriant<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn uchafswm llwyr o 150 (yn ddibynnol ar gyfradd peiriant/bwrdd o 5-1) | | | | | |
| **Casino bach** (cyfradd peiriant/bwrdd o 2-1 i'r mwyafswm) | | Uchafswm o 80 peiriant<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn uchafswm llwyr o 80 (yn ddibynnol ar gyfradd peiriant/bwrdd) | | | | | |
| **Casino cyn Deddf 2005** (dim cyfradd peiriant/bwrdd) | | Uchafswm o 20 peiriant yng nghategorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), neu<br>unrhyw nifer o beiriannau C neu D yn lle | | | | | |
| **Eiddo betio a thraciau ble ceir betio Pŵl** | | | Uchafswm o 4 peiriant yng nghategorïau B2 i D (ac eithrio peiriannau B3A) | | | | |
| **Eiddo Bingo** | | | | Uchafswm o 20% o'r cyfanswm o beiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yn yr eiddo yng nghategori B3 neu B4 | | Nid oes cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D | |
| **Canolfan Hapchwarae i Oedolion** | | | | Uchafswm o 20% o'r cyfanswm o beiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yn | | Dim cyfyngiad ar beiriannau C neu D | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yr eiddo yng nghategori B3 neu B4 | | | |
| **Canolfan Adloniant Teulu Trwyddedig** | | | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau C neu D | |
| **Canolfan Adloniant Teulu** (gyda hawlen) | | | | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau D |
| **Clybiau neu Sefydliadau Lles y Glöwyr**<br><br>(gyda hawlenni) | | | | Uchafswm o dri pheiriant yng nghategorïau B3A neu B4 i D | | | |
| **Eiddo gyda thrwydded alcohol sy'n gymwys** | | | | | | Un neu ddau beiriant categori C neu D yn awtomatig ar roi hysbysiad | |
| **Eiddo gyda thrwydded alcohol sy'n gymwys** (gyda Hawlen Peiriannau Hapchwarae i eiddo â thrwydded) | | | | | | Rhif y categori peiriannau C-D fel nodwyd ar yr hawlen | |
| **Ffair Deithiol:** | | | | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D |

## CRYNODEB O GATEGORÏAU PEIRIANNAU HAPCHWARAE A HAWLIADAU

| Categori'r peiriant | Uchafswm arian betio | Gwobr fwyaf |
|---|---|---|
| **A** | Dim cyfyngiad - dim hawl i gael peiriannau categori A ar hyn o bryd | |
| **B1** | £5 | £10,000* |
| **B2** | £100 | £500 |
| **B3A** | £2 | £500 |
| **B3** | £2 | £500 |
| **B4** | £2 | £400 |
| **C** | £1 | £100 |
| **D - gwobr nad yw'n ariannol** | 30c | £8 |
| **D - gwobr nad yw'n ariannol (dim ond peiriannau cipio â chraen)** | £1 | £50 |
| **D - gwobr ariannol** | 10c | £5 |

| | | |
|---|---|---|
| **D - gwobr sy'n gyfuniad o arian ac eitem arall** | 10c | £8 (na chaiff mwy na £5 fod yn wobr ariannol) |
| **D - gwobr sy'n gyfuniad o arian ac eitem arall (peiriannau sy'n gwthio ceiniogau neu'n gollwng ceiniogau yn unig)** | 20c | £20 (na chaiff mwy na £10 fod yn wobr ariannol) |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Mawrth 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Diweddariad ar Bolisi Euogfarn ac amodau i Yrwyr a Gweithredwyr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar amodau Polisi Euogfarn Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a Gweithredwyr Hurio Preifat.

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae aelodau wedi trefnu diweddariad ar y cynnydd ar bolisïau sy'n gysylltiedig â Pholisi Euogfarn Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a Gweithredwyr Llogi Preifat.

2.2 Mae'r polisïau presennol yn parhau nes bydd y sefyllfa genedlaethol yn hysbys.

## 3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Nid oes angen penderfyniad.

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae'r cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth trwyddedu gyrwyr a gweithredwyr cerbydau hacni a hurio preifat wedi sefydlu nifer o bolisïau i arwain ymgeiswyr a swyddogion ar ddisgwyliadau.

4.2 Cafodd y polisïau hyn eu hadolygu ddiwethaf yn 2014.

4.3 Cytunodd yr Aelodau i'r polisïau hyn gael eu hadolygu fel rhan o'u rhaglen gwaith i'r dyfodol.

4.4 Ers i hwn gael ei ychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol, mae gweithgor cenedlaethol wedi gwneud gwaith sylweddol, gan gynnwys sbectrwm eang

o fudd-ddeiliaid â diddordeb mewn trwyddedu tacsis, i ddatblygu model cenedlaethol ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

4.5 Roedd y drafft diweddaraf hwn yn destun cyfnod ymgynghori cenedlaethol a ddaeth i ben ar 28 Chwefror. Disgwylir i'r drafft hwn gael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn a chael ei ryddhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

4.6 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cwblhau ymgynghoriad ar drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru yn ddiweddar. Hysbysir swyddogion y bydd mwy o waith i ddilyn ar hyn.

4.7 Nid yw'r dogfennau ymgynghori y cyfeirir atynt uchod wedi eu hamgáu â'r adroddiad gwybodaeth hwn gan y disgwylir iddynt newid yn ystod y camau nesaf. Fodd bynnag, disgwylir i'r ddau ddarn yma o waith gael effaith ar y broses drwyddedu genedlaethol a lleol.

## 5.0 YSTYRIAETHAU

5.1 Dylai Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a pha un a ddylai'r dewis a ffefrir gynnwys cymryd rhan yn yr ymgynghoriadau gyda'r bwriad i ddatblygu'r modelau cenedlaethol yn lleol.

## 6.0 ARGYMHELLION

6.1 Bod yr Aelodau yn:

1) cydnabod cynnwys yr adroddiad
2) Bod Aelodau yn cyfarwyddo swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ar waith y gweithgor cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wrth i gynnydd pellach gael ei wneud i ganiatáu i aelodau ystyried perthnasedd i bolisïau trwyddedu tacsis y cyngor.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Mawrth 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd o ran adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd cyfredol yn Sir Ddinbych.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae gwaith wedi bod yn parhau o safbwynt drafftio Polisi Masnachu ar y Stryd ac mae swyddogion yn dymuno rhoi diweddariad i Aelodau ar gynnydd diweddar.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Rhan III, Atodlen 4, Masnachu ar y Stryd.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Yn 2015, rhoddodd yr Aelodau awdurdod i swyddogion adolygu'r gyfundrefn masnachu ar y stryd bresennol er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau gyda'r rheoliadau presennol ac awgrymu gwelliannau i reoleiddio a chefnogi masnachu ar strydoedd y Sir yn well.

4.2 Cafodd polisi drafft ei ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu yn Rhagfyr 2016, yn dilyn hynny cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghyd ag adrannau mewnol y Cyngor.

4.3 Cafodd sylwadau o'r ymgynghoriad cychwynnol eu cynnwys mewn Polisi

Masnachu ar y Stryd drafft a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

4.4 Yn eu cyfarfod ar 20 Medi 2017, cafodd Aelodau eu hysbysu er na chafwyd unrhyw ymatebion yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd adborth gan unigolion a thimau o fewn y Cyngor yn dangos bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r polisi.

4.5 Felly, roedd yr Aelodau'n rhoi cymeradwyaeth i swyddogion ymgysylltu gyda chydweithwyr yn y tîm Busnes a Chyfathrebu i gynghori ar y ffordd orau o gyrraedd y rai y gall y polisi effeithio arnynt, yn benodol masnachwyr "sefydlog", masnachwyr ar y stryd, cymunedau a thimau'r Cyngor ehangach e.e. Gwasanaethau Cynllunio, Priffyrdd ac Amgylcheddol.

4.6 Mae amrywiol gyfarfodydd wedi eu cynnal i lunio strategaeth gychwynnol gan ddefnyddio holiaduron wyneb yn wyneb a chyfryngau cymdeithasol, ynghyd â gwefan y Cyngor i gysylltu a gwahodd adborth gan aelodau allweddol o'r gymuned. Yna dylai hyn ein galluogi i baratoi polisi sydd wedi bod yn destun proses ymgysylltu ac ymgynghori trylwyr.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Bod Aelodau'n rhoi awdurdod i swyddogion barhau i weithio gyda grwpiau ac unigolion perthnasol a chyflwyno polisi drafft ar gyfer cyflwyniad mewn Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Mawrth 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2018 |

**1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 Darparu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ar gyfer 2018 i'r Aelodau.

**2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig yn amgaeedig, yn Atodiad A, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

**3.0 GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol iddynt gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol dreigl 12 mis, yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trwyddedu.

3.2 Mae'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yma wedi'i llunio wrth ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan lywodraeth ganolog.

3.3 Penderfynodd yr Aelodau y dylid diweddaru'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn ystod pob cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn galluogi'r Swyddogion i ymateb i bwysau neu newidiadau wrth iddynt godi, heb orfod gwneud newidiadau sylweddol i'r rhaglen.

**4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig, fel y nodwyd yn yr Atodiad.

**Atodiad A**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Waith**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **Mehefin 2018** | Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat<br>Polisi Collfarn Gyrwyr | Diweddariad |
| | Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat<br>Polisi/Amodau Gweithredwyr / Gyrwyr | Diweddariad |
| | Polisi Defnydd Arfaethedig | Adolygu |
| | Polisi Eithrio Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu |
| **Medi 2018** | Polisi Masnachu ar y Stryd | Cymeradwyo |
| | Polisi Casglu ar y Stryd | Adolygu |
| | Polisi Casgliadau Drws i Ddrws | Adolygu |
| **Rhagfyr 2018** | Gweithdrefn Pwyntiau Cosb | Diweddariad |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag